# CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CASTELL-NEDD PORT TALBOT

## CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL 2015-2019

### ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT 2018-2019



Os oes angen yr adroddiad hwn arnoch chi mewn print mwy neu fformat amgen, cysylltwch â'r Tîm Polisi Corfforaethol ar 01639 763010 neu e-bostiwch: policy@npt.gov.uk

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd

## RHAGAIR

Mae'n bleser gen i gyflwyno adroddiad cynnydd ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill 2018 tan 31 Mawrth 2019 ar sail ein perfformiad yn cyflawni Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a'r amcanion cydraddoldeb a geir yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2015-2019.

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn nodi sut rydym ni'n bwriadu dileu camwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth, hybu cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da ymhlith a rhwng pobl yn y fwrdeistref sirol.

At ei gilydd, rydym ni'n gwneud cynnydd da, ond rydym ni'n ymwybodol o'r cyfyngiadau rydym ni'n eu hwynebu wrth i gyllidebau leihau mwyfwy.

Rwy'n gobeithio y cewch chi fod yr wybodaeth yn ddefnyddiol, a byddwn i'n croesawu adborth oddi wrthych.

**Y Cyng D Jones**

**Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Chydraddoldeb**

**Cynnwys**

**Adran 1 – Deddfwriaeth Cydraddoldeb ..... 3**
**Adran 2 - Trosolwg o'r cynnydd ..... 5**
**Adran 3 - Cynnydd a wnaed yn erbyn pob un o'n Hamcanion Cydraddoldeb ..... 7**
**Adran 5 - Cyfle i roi eich Barn ..... 36**
**Adran 6 - Mesurau Perfformiad ..... 37**

# Adran 1 – Deddfwriaeth Cydraddoldeb

## Deddf Cydraddoldeb 2010

Roedd Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cyfuno ac yn disodli deddfwriaeth flaenoriaeth yn erbyn camwahaniaethu, yn symleiddio ac yn cryfhau'r gyfraith, yn dileu anghysondebau, ac yn golygu bod y ddeddfwriaeth yn haws ei deall i bawb. Trwy weithredu'r Ddeddf ein nod yw gweithio at greu cymdeithas decach, gan wella gwasanaethau cyhoeddus, rhoi sylw i anghydraddoldeb sydd wedi gwreiddio, ac yn y pen draw, gwella bywydau pobl.

O dan y Ddeddf mae'n ofynnol bod y Cyngor, ynghyd â chyrff cyhoeddus eraill, yn rhoi sylw dyledus i'r angen am ddileu camwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth, gan hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin perthynas dda rhwng ac ymhlith pobl o wahanol grwpiau a amddiffynnir (yr enw ar hyn yw Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus).

Y grwpiau, neu'r nodweddion, a amddiffynnir yw:

- oedran
- ailbennu rhywedd
- rhyw
- hil
- anabledd
- beichiogrwydd a mamolaeth
- cyfeiriadedd rhywiol
- crefydd a chred
- priodas a phartneriaeth sifil (ond dim ond yng nghyswllt yr angen am ddileu camwahaniaethu)

## Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) - Rheoliadau 2011

Yng Nghymru cyflwynwyd dyletswyddau penodol i'n helpu i gyflawni dyletswydd y sector cyhoeddus, ac mae'r rhain yn cynnwys cynhyrchu Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS) a datblygu a chyhoeddi amcanion cydraddoldeb.

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn cael ei baratoi o dan adran 16(1) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol)(Cymru) – Rheoliadau 2011, ac mae'n cyflwyno'r cynnydd a wnaed yn erbyn pob un o'n hamcanion cydraddoldeb, a geir yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2015-2019.

### Mesur yr Iaith Gymraeg 2011

Rhoddodd y Mesur statws swyddogol i'r iaith Gymraeg yn Nghymru, sefydlu rôl Comisiynydd y Gymraeg, creu gweithdrefn ar gyfer cyflwyno dyletswyddau ar ffurf safonau iaith, a llunio darpariaeth yng nghyswllt hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r Gymraeg ymhlith darpariaethau eraill. Rôl Comisiynydd y Gymraeg yw hyrwyddo'r iaith Gymraeg, a gwella'r cyfleoedd mae pobl yn eu cael i'w defnyddio, trwy bwysleisio statws swyddogol yr iaith yng Nghymru, a phennu safonau ar gyfer sefydliadau.

### Rheoliadau Safonau'r Iaith Gymraeg (Rhif 1) 2015

Mae'r Rheoliadau hyn, a osodir ar gynghorau cymuned a chynghorau bwrdeistref sirol, awdurdodau parciau cenedlaethol a Gweinidogion Cymru, yn cynnwys ystod o safonau ymddygiad yng nghyswllt yr iaith Gymraeg. Cafodd y safonau eu grwpio i'r meysydd canlynol:

- cyflwyno gwasanaeth
- llunio polisi
- gweithredol
- hyrwyddo
- cadw cofnodion

Cynhyrchwyd Adroddiad Blynyddol ar Safonau'r Iaith Gymraeg yn 2018-2019 , yn unol â'r Rheoliadau hyn, sy'n nodi manylion sut rydym wedi cydymffurfio â'r safonau yn ystod y flwyddyn.

### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae'r ddeddfwriaeth hon hefyd yn gosod dyletswyddau ar y Cyngor i bennu amcanion llesiant, ac i weithio mewn ffordd gynaliadwy i gyflawni Cymru decach a mwy cyfartal. Yn ddiweddar mae'r Cyngor wedi adolygu ei offeryn asesu effaith integredig er mwyn cynorthwyo swyddogion i gyfuno'r holl ddyletswyddau sy'n codi mewn perthynas â chydraddoldeb.

## Adran 2 - Trosolwg o'r cynnydd

Mae ein gwaith yn ystod 2018-2019 wedi parhau i ganolbwyntio ar gadarnhau'r gwaith a wnaed eisoes ac integreiddio ein gwaith cydraddoldeb â'n Cynllun Corfforaethol ehangach. Rydym ni'n eithriadol o ymwybodol, yn y cyfnod hwn o gyfyngiadau ariannol, bod perygl i anghydraddoldeb ac annhegwch gynyddu. O ganlyniad, rydym wedi canolbwyntio ar y meysydd gwaith hynny lle rydym ni'n credu bod risg gynyddol o anghydraddoldeb, a lle gallwn ni gael yr effaith fwyaf ar adeg pan fo adnoddau'n lleihau.

Dyma rai o uchafbwyntiau'r flwyddyn:

- Proffil Cymunedol – gwnaed darn allweddol o waith er mwyn deall ein cymunedau Pobl Ddu a Lleiafrifoedd Ethnig (BME) yn well, ynghyd â'u profiadau o fyw yn yr ardal a'r materion maen nhw'n eu hwynebu wrth gael mynediad i wasanaethau, gan Gymdeithas y Gymuned BME, gyda chefnogaeth Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot a'r Cydgysylltydd Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol. Daeth y cyllid ar gyfer y gweithgaredd hwn o arian grant a ddarparwyd o dan ein Cynllun Grantiau Trydydd Sector. Mae canlyniadau'r ymarferiad wedi cael eu trafod yn y Grŵp Cydraddoldeb a Chydlyniant Cymunedol a byddwn ni'n defnyddio'r wybodaeth i lywio'n gwaith wrth symud ymlaen.
- Cymdeithas y Gymuned BME - roeddem ni'n falch o enwebu dau Aelod i seddau ar Fwrdd y sefydliad newydd, a threfnu bod dau swyddog yn rhoi cymorth a chyngor i Gymdeithas y Gymuned. Ym mis Ionawr 2019 daeth Cymdeithas y Gymuned yn Elusen Gofrestredig gyda'r Comisiwn Elusennau.
- Cynhaliwyd digwyddiad blynyddol y Criw Croch ym Mharc Margam rhwng 2 ac 13 Gorffennaf 2018 ar gyfer 1,600 o ddisgyblion Blwyddyn 6. Daeth 12 o asiantaethau partner i'r digwyddiad, gan gynnwys: Heddlu De Cymru, Cymorth i Ferched Port Talbot ac Afan, Calan DVS, Hafan Cymru, Diogelwch Ffyrdd Castell-nedd Port Talbot, Canolfan Gweithredu ar Ddibyniaeth a Chaethiwed Cymru (WCADA). Ffocws y digwyddiad oedd cyflwyno gwybodaeth am ddiogelwch ar y meysydd canlynol: diogelwch ar y rhyngrwyd, perthnasoedd iach, diogelwch wrth feicio ac ymwybyddiaeth o gyffuriau/alcohol. Ar ben hynny bu disgyblion Blwyddyn 10 yn cyflwyno addysg cyfoedion ar faterion fel bwlio, ymddygiad gwrthgymdeithasol, cyffuriau a'r cyfryngau cymdeithasol.

- Gwnaethom ni gynnydd arwyddocaol ar weithredu'r Strategaeth Perthnasoedd Iach i greu Cymunedau Cryfach (yr enw newydd ar y Strategaeth Trais yn erbyn Benywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol). Roedd hyn yn cynnwys ymgyrchoedd llwyddiannus fel diwrnod Rhuban Gwyn, hyrwyddo polisïau gweithle ymhlith nifer o gyflogwyr lleol, cefnogi ymgyrchoedd Llywodraeth Cymru, cwblhau ymarferiad mapio gwasanaethau, estyn y Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol, cyflwyno cynllun gwers newydd a fydd yn awr yn cael ei estyn ar draws ein holl ysgolion, a chynyddu capasiti gwasanaeth yr Ymgynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig. Aethom ni ati hefyd i ddechrau ystyried sut mae'r agenda hon yn effeithio ar ddynion, pobl hŷn a grwpiau lleiafrifol. Cawsom fewnbwn diddorol iawn yn arbennig gan BAWSO (sefydliad sy'n darparu gwasanaethau arbenigol i gymunedau BME ynghylch anffurfio organau rhyw merched (FGM)) wrth gyflwyno ein hadroddiad blynyddol ar ein Strategaeth Perthnasoedd Iach i greu Cymunedau Cryfach. Wrth i ni adnewyddu'r Strategaeth yn 2019-20 byddwn ni'n estyn yr ymchwil a'r ymgysylltu â'r grwpiau hyn i lywio'r gyfres nesaf o flaenoriaethau ar gyfer partneriaeth ein Strategaeth Perthnasoedd Iach i greu Cymunedau Cryfach.
- Mae deall effaith ein polisïau a'n gwasanaethau ar bobl sy'n rhannu nodweddion a amddiffynnir yn parhau'n rhan allweddol o'n gwaith. Rydym wedi cyflwyno asesiad effaith integredig diwygiedig yn ystod y flwyddyn a chyflwyno hyfforddiant ar sut mae defnyddio'r fframwaith newydd i'r swyddogion hynny ar draws y Cyngor sy'n ysgrifennu adroddiadau.
- Rydym hefyd wedi edrych ar ein mecanweithiau presennol ar gyfer casglu data er mwyn sicrhau eu bod yn addas at y diben ac yn cael eu defnyddio'n effeithiol. Lle nodwyd bylchau, rydym wedi gweithio gyda'r grwpiau perthnasol, gan gynnwys Cymdeithas y Gymuned BME a chynrychiolwyr o'r gymuned ffydd, i wella'n cyd-ddealltwriaeth o brofiadau a phroblemau pobl sy'n byw yn ein hardal. Mae'r gwaith hwn wedi darparu sylfaen gadarn ar gyfer gwneud cynnydd yn ystod y flwyddyn sy'n dod o ran lleihau/dileu unrhyw rwystrau arwyddocaol y mae rhai grwpiau a amddiffynnir yn eu hwynebu'n feunyddiol, gan effeithio ar eu cyfranogiad ym mywyd y gymuned ac wrth gyrchu ein gwasanaethau.

## Adran 3 - Cynnydd a wnaed yn erbyn pob un o'n Hamcanion Cydraddoldeb

### Amcan Cydraddoldeb 1 - Mynd i'r afael ag aflonyddu, camwahaniaethu a bygythiadau eraill i ddiogelwch personol a brofir gan bobl yn sgîl eu nodweddion a amddiffynnir

### 1. Cynyddu ymwybyddiaeth o droseddau atgasedd a rhoi gwybod amdanynt

**Beth wnaethon ni?**

- Fe wnaethon ni ddatblygu sgriptiau ar gyfer yr ymgyrch radio cydlyniant cymunedol a throseddau atgasedd, oedd ar yr awyr ym mis Medi a mis Hydref 2018. Cafodd y Ganolfan Adrodd Cymorth i Ddioddefwyr ei hyrwyddo fel rhan o'r ymgyrch.
- Gwelwyd cynnydd yn nifer y troseddau atgasedd yr adroddwyd amdanynt yn ystod 2018-2019, 162 o gymharu â 122 yn 2017-2018 a chynnydd sylweddol yn nifer y troseddau atgasedd oedd â symbyliad hiliol, 106 o gymharu â 68 yn 2017-2018. Gallai'r cynnydd hwn fod o ganlyniad i gyfuniad o ffactorau, gan gynnwys y ffaith bod nifer y troseddau atgasedd yn erbyn cymunedau BME wedi codi, bod mwy o hyder ynghylch rhoi gwybod i'r heddlu, a bod ymwybyddiaeth gynyddol o fecanweithiau adrodd o ganlyniad i'r ymarferiad Proffilio Cymunedol a gynhaliwyd. Gwelwyd cynnydd hefyd yn nifer y troseddau atgasedd yr adroddwyd amdanynt yn erbyn pobl trawsrywiol, 12 o gymharu â 4 yn 2017-2018.
- Mae'r heddlu'n dal i rannu gwybodaeth monitro tensiwn a throseddau atgasedd gyda Phartneriaeth Port Talbot Mwy Diogel, sydd wedi darparu cipolwg amhrisiadwy ar y sefyllfa yng Nghastell-nedd Port Talbot. Bydd yr wybodaeth yn helpu i ffurfio mentrau pellach i roi sylw i'r materion hyn yn yr ardal leol, yn ogystal â gweithio i ddeall profiadau pobl yn well, a mynd ati i'w gwella.
- Ar y cyd â'r Cydgysylltydd Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol, rhoddwyd gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i'r gymuned Fwslimaidd leol yn dilyn y bygythiad posibl o drais gan grwpiau adain dde yn ystod mis Ebrill 2018, yn ogystal â'r bygythiad posibl yn dilyn yr ymosodiad adain dde ar ddau Fosg yn Christchurch, Seland Newydd, ym mis Mawrth 2019.
- Cyflwynwyd tri gweithdy addysgol diduedd ar y gwrthdaro rhwng Israel a Phalesteina gan *Solutions Not Sides* yn Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur, ar 6 Mawrth 2019. Roedd y gweithdai'n adnodd eithriadol o werthfawr ar gyfer

hybu cydlyniant cymunedol yn yr ardal. Nod y fenter oedd grymuso pobl ifanc â'r wybodaeth, yr empathi a'r sgiliau i hybu deialog a datrys gwrthdaro, a herio rhagfarn (yn arbennig Gwrthsemitiaeth a Gwrthweithio Atgasedd at Fwslimiaid) a theorïau cydgynllwynio.

- Datblygodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ecsbloetio (un o is-grwpiau Bwrdd Diogelu Bae'r Gorllewin), gwrs hyfforddi ar gyfer diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl o ddioddef ecsbloetio, sy'n rhoi sylw i'r holl wahanol ffurfiau ar ecsbloetio:  rhywiol, troseddol, *county lines*, caethwasiaeth fodern, troseddau atgasedd/cyfeillio, bod yn gwcw a radicaleiddio. Cyflwynwyd y sesiwn hyfforddi gyntaf i 12 o staff ym mis Chwefror 2019, ac ym mis Mawrth 2019 cynhaliwyd sesiwn Hyfforddi'r Hyfforddwr ar gyfer 48 o staff, fel bod modd cyflwyno hyfforddiant pellach ar Ecsbloetio.
- Daliodd y Swyddog Datblygu BME ati i gyflwyno prosiectau gyda Chymdeithas y Gymuned BME. Roedd un o'r prosiectau hyn yn ymarferiad 'Proffil Cymunedol' Castell-nedd Port Talbot mewn cymunedau Du a Lleiafrifoedd Ethnig. Buom ni'n ymgysylltu â phobl o amrywiol gymunedau, e.e. Romanaidd, Tamil, Bangladeshi, Pacistani, a chymunedau eraill o Ddwyrain Ewrop. Un o'r materion allweddol a nodwyd oedd troseddau/digwyddiadau atgasedd a bydd camau gweithredu i ymdrin â hyn a materion eraill yn cael eu hystyried gan y Grŵp Cydraddoldeb a Chydlyniant Cymunedol, y mae Cymdeithas y Gymuned BME yn aelod ohono.

**2. Cryfhau gwaith mewn partneriaeth i daclo cam-drin domestig a sefydlu mecanweithiau amlasiantaeth i gefnogi pobl sydd mewn perygl o gael eu denu i droseddu trefnus, difrifol**

**Beth wnaethon ni?**

- Mae'r Grŵp Cyfathrebu ac Ymgysylltu, dan arweiniad Prif Swyddog Diogelwch Cymunedol y Cyngor, yn darparu ymateb partneriaeth i weithgareddau cynyddu ymwybyddiaeth, gan herio agweddau a rhagdybiaethau ynghylch cam-drin domestig. Mae hyn wedi cynnwys sawl ymgyrch lwyddiannus, gan gynnwys Diwrnod Rhyngwladol y Benywod a Diwrnod y Rhuban Gwyn. Mae'r Grŵp hefyd wedi ategu'r negeseuon sy'n cael eu hyrwyddo'n lleol trwy ymgyrchoedd cenedlaethol Llywodraeth Cymru.
- Cynhaliwyd Gweithdy Llesiant 'It's Your World', a gyflwynwyd i 300 o ddisgyblion Blwyddyn 8 o Ysgol Bae Baglan. Y nod oedd cynyddu ymwybyddiaeth o gamddefnyddio sylweddau, cam-drin domestig, camfanteisio'n rhywiol ar blant a iechyd meddwl, meithrin gwydnwch ac amlygu'r gwasanaethau y gall pobl ifanc droi atynt am gefnogaeth ychwanegol.

- Mae Is-Grŵp Plant a Phobl Ifanc y Strategaeth Perthnasoedd Iach i greu Cymunedau Cryfach wedi mynd ati i fapio gwasanaethau ac amlygu argymhellion ar gyfer newid, yn ogystal â chyflwyno digwyddiad cynyddu ymwybyddiaeth ar gyfer ymarferwyr rheng flaen. O ganlyniad i'r gwaith hwn, cyflwynwyd cynllun gwersi newydd yn holl ysgolion Castell-nedd Port Talbot. Mae rhaglen Spectrum, sy'n cael ei chyflwyno gan Hafan Cymru, yn dal i gael ei chefnogi ar draws ysgolion. Ar ben hyn mae'r Grŵp wedi cydweithio'n agos â'r Grŵp Addysg Rhyw a Pherthnasoedd i ddatblygu gwersi a chanllawiau oed-briodol a fydd yn cael eu cynnwys yn y pecynnau gwersi presennol ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd.
- Mae llwythi achosion ein Hymgynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig wedi cael eu gostwng i lefelau diogel, ac mae'r berthynas gyda'r asiantaethau arbenigol wedi gwella'n fawr, fel bod modd symud achosion i fyny neu i lawr yn fwy effeithlon ac effeithiol. Buom hefyd yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod mwy o gysondeb yn agwedd asiantaethau arbenigol ar draws y fwrdeistref sirol.

**Amcan Cydraddoldeb 2 - Gwella mynediad i wybodaeth drwy ddiwallu anghenion pobl o grwpiau a amddiffynnir lle mae'r anghenion hynny'n wahanol i anghenion pobl eraill**

**1. Gwella cynnwys gwefan y Cyngor**

**Beth wnaethon ni?**

- Comisiynwyd archwiliad anabledd o'r deg tudalen gwe a ddefnyddir amlaf er mwyn canfod sut gallwn ni wella mynediad i wasanaethau ar gyfer y trigolion hynny sydd ag anableddau. Archwiliwyd y tudalennau canlynol:
    - Teclyn Canfod Diwrnod Biniau – Ailgylchu
    - Dyddiadau Tymhorau Ysgol 2018-2019
    - Cael hyd i Amserau Agor Canolfan Ailgylchu Llansawel
    - Edrych ar Gais Cynllunio
    - Talu eich Treth Cyngor
    - Casgliadau Eitemau Swmpus
    - Gwneud cais am Hawlen Fan
    - Adnewyddu Llyfr Llyfrgell
    - Rhestr Swyddi
    - Cael hyd i'r Tâl a Godir am Barcio yn Heol Milland, Castell-nedd

  Ers hynny daeth adroddiad ar y canfyddiadau i law, ac mae gwaith yn digwydd i roi sylw i'r materion a nodwyd.
- Ar hyn o bryd mae gennym 29 o wasanaethau ar-lein sy'n fyw trwy ein gwefan, gydag 14 arall yn cael eu datblygu. Cododd nifer y trafodion ar-lein 24% yn 2018-2019 i 75,438 - o 60,623 yn 2017-2018.
- Mae'r trawiadau ar ein gwefan wedi cynyddu o 2,845,526 yn 2017-2018 i 3,036,058 yn 2018-2019.
- Mae'r galw yn ein Siopau dan yr Unto (OSS) wedi lleihau; 65,259 o alwyr yn ystod 2017-2018, o gymharu â 60,194 yn ystod 2018-2019. Ymhlith y ffactorau sy'n cyfrannu at hyn mae gostyngiad yn nifer yr ymholiadau ailgylchu a

threth y cyngor, ynghyd ag ymdrechion parhaus y staff i hyrwyddo'r gwasanaethau ar-lein sydd ar gael i gwsmeriaid.

- Creodd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus bartneriaeth newydd i symud ymlaen gyda'r gwaith ar gynhwysiad digidol. Mae'r  Gweithgor Cynhwysiad Digidol yn ymdrin â phedwar rhwystr i gynhwysiad digidol: cysylltedd, fforddiadwyedd, sgiliau a hyder. Ymhlith y darnau allweddol o waith a gwblhawyd roedd archwilio pa mor dda yw'r gwasanaeth band eang yn yr ardal a gweithredu ar sail canfyddiadau arolwg o sefydliadau trydydd sector er mwyn canfod i ba raddau mae'r sector mewn sefyllfa dda i weithredu mewn amgylchedd digidol.
- Hefyd cwblhawyd arolwg o holl sefydliadau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, er mwyn sicrhau bod holl asiantaethau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn gweithio'n unol â'r meini prawf a bennwyd yn Siarter Cynhwysiad Digidol Llywodraeth Cymru. Mae'r gwaith wedi nodi meysydd lle bydd cydweithio'n llesol - er enghraifft bydd dull cydlynus o fynd ati i atal seiberdroseddu, gydag asiantaethau'n hyrwyddo'r un negeseuon a gwasanaethau cymorth.
- Crëwyd swydd llysgennad cynhwysiad digidol, a ariannir trwy'r Rhaglen Datblygu Gwledig, ac mae'r swyddog dan sylw yn cydweithio'n agos â'r trydydd sector i sicrhau dealltwriaeth ddigonol o sut bydd y chwyldro digidol yn effeithio ar gyrff trydydd sector. Bydd mynediad at gyllid er mwyn amnewid cyfarpar TGCh sydd wedi dyddio, hyfforddiant a darparu gwasanaethau i'r trigolion hynny nad ydynt ar-lein yn ffocws allweddol i'r gwaith wrth symud ymlaen.

## 2. Cynyddu hygyrchedd gwybodaeth/dogfennaeth

### Beth wnaethon ni?

- Mae'r cyfeirlyfr gwasanaethau cymunedol, DEWIS, yn rhestru amrywiol wasanaethau gofal a chymorth sydd ar gael ar draws y fwrdeistref sirol, ynghyd ag ap penodol i'r ffôn, sy'n caniatáu i weithwyr cymdeithasol gyrchu gwybodaeth ar-lein wrth ymweld â chleientiaid.
- Cynyddodd nifer yr adnoddau cyhoeddedig oedd ar gael ar DEWIS o 120 ym mis Gorffennaf 2018 i 552 ym mis Gorffennaf 2019, a chynyddodd nifer y defnyddwyr cofrestredig o 52 ym mis Gorffennaf 2018 i 202 ym mis Gorffennaf 2019. Roedd nifer yr ymweliadau manwl â DEWIS bob mis yn dangos cynnydd o 75% rhwng chwarter

2 (Gorffennaf - Medi) 2018 (y chwarter cyntaf o ddefnydd), sef o 2,654 i 10,837 yn chwarter 1 (Ebrill - Mehefin) 2019.

- Ar hyn o bryd mae 1,184 darn o wybodaeth ar gael i'w lawrlwytho trwy ein gwefan, o fanylion am ein 'Rhaglen Gyfalaf' i 'Sut mae Maethu' i wybodaeth ar 'Ailgylchu'.
- Rydym wedi cydnabod y newidiadau yn sut mae defnyddwyr llyfrgelloedd yn cyrchu rhai o'n gwasanaethau digidol a'r defnydd o wahanol lwyfannau, gyda mwy a mwy o ymwelwyr yn defnyddio'r gwasanaeth Di-Wi (Wi-Fi) am ddim yn hytrach na chyfrifiaduron pen desg yn ein llyfrgelloedd. Mae hyn yn amlygu sut mae cwsmeriaid yn cyrchu gwybodaeth ar-lein bellach, a bydd o gymorth i lywio darpariaeth gwasanaeth yn y dyfodol.
- Bu cynnydd yn niferoedd y bobl sy'n mynychu llyfrgelloedd ar gyfer amrywiol weithgareddau a digwyddiadau, gan gynnwys sesiynau cymorth TG, sesiynau cân a rhigwm Dechrau Da, Gwau a Chloncan, Cymraeg i Blant, Tylino Babanod, Grŵp Darllen Cymraeg, a Chymorth Cyflogaeth Gweithffyrdd+; mae'r defnydd o lyfrgelloedd yn awr yn amrywio, heb ei gyfyngu i gyfrifiaduron a benthyg llyfrau.

## Amcan Cydraddoldeb 3 - Gwella mynediad i wasanaethau drwy ddiwallu anghenion pobl o grwpiau a amddiffynnir lle mae'r anghenion hynny'n wahanol i anghenion pobl eraill

### Gwella mynediad at ddarpariaeth Gwasanaethau Cymdeithasol

### Beth wnaethon ni?

- Y llynedd gwelwyd gostyngiad yng nghyfanswm y bobl rydym ni'n eu cefnogi, gan fod cynllun gwasanaeth a gofal gan ychydig mwy na 2,700 i gyd. Er bod y nifer 65+ oed sy'n derbyn gwasanaeth wedi codi 5%, yn bennaf oherwydd bod mwy o bobl yn cael gofal seibiant neu ofal cartref, mae'r gostyngiad cyffredinol wedi digwydd yn sgîl nodi'n gynharach pa gefnogaeth mae ar bobl ei hangen. Mae hyn yn golygu bod llawer mwy o bobl yn cael help a chefnogaeth gan y trydydd sector a sefydliadau cymunedol erall, gan hybu mwy o annibyniaeth.
- Er mwyn deall yn well a yw'r gwasanaethau rydym ni'n eu darparu yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau pobl, fe gynhalion ni Arolwg Dinasyddion yn ystod hydref 2018 gyda phlant dros 7 oed, oedolion, rhieni a gofalwyr. Er bod y gyfradd ymateb braidd yn isel ar draws yr holl grwpiau (yn arbennig gan rieni, lle roedd yn 13% yn unig), mae'r ymatebion a gafwyd wedi bod yn gefnogol i'n gwasanaethau, er enghraifft, roedd 93% o'r oedolion yn cytuno eu bod yn 'cael eu trin â pharch'; ac roedd 84% o blant yn gwybod 'â phwy i siarad ynghylch fy ngofal a'm cefnogaeth'.
- Unwaith eto, yn 2018-2019 gwelwyd cynnydd yn nifer y Cydlynwyr Ardal Leol, i chwech, yn canolbwyntio ar gydgynhyrchu a grymuso dinasyddion a chymunedau lleol.
- Mae'r Gwasanaeth Cefnogi Taliadau Uniongyrchol yn parhau i gefnogi'r rhai sy'n eu derbyn a bu'n peilota ei ffair recriwtio ei hun yn llwyddiannus. Cododd nifer y bobl oedd yn derbyn taliadau uniongyrchol i 440 yn ystod 2018-2019, o 415 yn y flwyddyn flaenorol.
- Bu'r Cyngor Ieuenctid Plant sy'n derbyn Gofal, neu YOVO fel y'i gelwir (YOur VOice Matters), yn cydweithio â Lleisiau Bach - prosiect yng ngofal Arsyllfa Hawliau Dynol Prifysgol Abertawe - i gynnal prosiect ymchwil fyddai'n sicrhau bod plant a phobl ifanc sy'n mynd i ofal yn derbyn gwybodaeth am eu lleoliad. Cafodd eu gwaith ddylanwad uniongyrchol ar ymarfer gwaith cymdeithasol. Yn y dyfodol, bydd gweithwyr cymdeithasol yn darparu

llyfrynnau gwybodaeth sy'n cynnwys proffiliau'r gofalwyr maeth. Hefyd enillodd YOVO Wobr Ieuenctid Cymunedol Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol CNPT am wirfoddoli a helpu'r gymuned.

- Mae ein Tîm Porth yn gweithredu fel un pwynt cyswllt er mwyn i oedolion sydd angen cefnogaeth i gynnal neu adennill eu hannibyniaeth gysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol. Mae swyddogion cyswllt hynod fedrus, a gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn rhoi cyngor ac yn cyfeirio ymlaen yn ôl y galw, gan lunio asesiadau cynnar er mwyn canfod y bobl sydd angen cefnogaeth gan iechyd neu'r gwasanaethau cymdeithasol.
- Mae Gwasanaeth Gofalwyr CNPT yn gweithio mewn partneriaeth fel gwasanaeth integredig gyda iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r gwasanaeth yn darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i ofalwyr ar ystod eang o faterion, gan gynnwys cyngor ar fudd-daliadau. Mae gweithiwr cymorth wedi'i gyd-leoli mewn sawl tîm, gan gynnwys SPOC (Un Pwynt Cyswllt) a'r Porth (Gateway), er mwyn sicrhau bod gofalwyr yn cael yr wybodaeth gywir ar yr adeg gywir, a'u bod yn cael eu cefnogi yn y pwynt cyswllt cyntaf. Cynhaliwyd digwyddiadau 'Cyfle i roi eich Barn' i ofalwyr, er mwyn sicrhau cyfle iddynt gael eu cynnwys wrth ddechrau cynhyrchu gwasanaethau ar y cyd i ofalwyr.
- Yn 2018-2019, cynhaliodd Gwasanaeth Gofalwyr CNPT 274 o asesiadau gofalwyr ar ein rhan, cynnydd o 49 ers y flwyddyn flaenorol. Anfonwyd cylchlythyr chwarterol hefyd at 3,430 o ofalwyr ar draws y fwrdeistref sirol sy'n hysbys i'r gwasanaeth.
- Mae'r Tîm Cysylltu Cymunedau (CCT) yn darparu cyfleoedd cymunedol o ansawdd uchel a dechreuadau newydd i bobl fregus 16 oed a throsodd sy'n byw yn yr ardal. Mae'r CCT yn ymroddedig i sicrhau bod pawb yn cael y cyfleoedd gorau posibl i gyflawni eu nodau personol trwy eu galluogi i ddatblygu sgiliau, trwy gynnwys pobl mewn grwpiau a gweithgareddau cymunedol lleol, a'u hannog i greu perthynas â ffrindiau newydd a meithrin hen berthnasoedd. Cefnogodd y tîm 81 o bobl yn 2018-2019 (cynnydd o 51 yn 2017-2018); nifer nad yw'n cymryd i ystyriaeth y bobl sy'n mynychu gweithgareddau/sesiynau'r CCT yn annibynnol neu gyda chefnogaeth eu cynorthwy-ydd personol.
- Mae'r gwasanaeth Cyflogaeth, Gwaith a Hyfforddiant yn darparu cyfleoedd gwaith, hyfforddiant a chyflogaeth ar gyfer oedolion sydd â phob math o anabledd. Y bwriad yw creu amgylchedd byw sy'n paratoi defnyddwyr gwasanaeth ac yn rhoi iddynt yr offer a'r sgiliau i ddatblygu eu potensial ac yn y pen draw i weithio/hyfforddi/sicrhau cyflogaeth yn y gymuned. Mae dau leoliad i'r gwasanaeth: Bspoked Enterprises ym Mynachlog Nedd, a Fresh Start yn y Cymer.  Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae dros 130 o bobl wedi cyrchu'r

gwasanaeth, ac mae llawer wedi symud ymlaen i feysydd eraill megis gwirfoddoli a gweithio yn y gymuned. Mae nifer o ddefnyddwyr gwasanaeth hefyd wedi llwyddo i gael cyflogaeth trwy'r Prosiect Elît, sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn wedi helpu i sefydlu cysylltiadau da a gwaith mewn partneriaeth â sefydliadau sy'n cydweddu â'r gwasanaeth, gan gynnwys Coleg Castell-nedd, Cadwch Gymru'n Daclus a Gyrfa Cymru.

- Sicrhawyd cyllid o'r grant Cymunedau dros Waith+ i gynnal prosiect peilot, gyda chefnogaeth Prifysgol Abertawe, er mwyn deall yn well anghenion y Gymuned Sipsiwn a Theithwyr yng Nghastell-nedd Port Talbot, y drydedd Gymuned Sipsiwn a Theithwyr fwyaf yng Nghymru.

## Amcan Cydraddoldeb 4 - Monitro gwybodaeth a data'n effeithiol er mwyn adnabod yr anfanteision mae pobl yn eu profi oherwydd eu nodweddion a amddiffynnir

### Datblygu systemau monitro cadarn oddi mewn i wasanaethau

### Beth wnaethon ni?

- Mae casglu ein data cyflogaeth yn dal yn heriol. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd y problemau a gafwyd yn flaenorol o ran casglu data yn lleihau, nawr bod staff yn gallu cyrraedd y porthol cyflogeion trwy'r fewnrwyd.
- Cafodd proses newydd yr asesiad effaith integredig ei pheilota gan nifer o feysydd gwasanaeth yn ystod gwanwyn 2018, a threfnwyd sesiynau hyfforddi ar gyfer swyddogion, uwch-reolwyr ac aelodau etholedig ym mis Mai/Mehefin 2018. Gwaetha'r modd, bu'n rhaid gohirio'r sesiynau hyfforddiant hyn tan ddiwedd yr haf/ddechrau'r hydref 2018 oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'n rheolaeth.  Fodd bynnag, mae'r rhaglen hyfforddiant bellach wedi'i chwblhau, a dylai hynny olygu bod modd i awduron adroddiadau roi ystyriaeth briodol i'r ystod o ddyletswyddau cyfreithiol a roddwyd ar y Cyngor o dan yr amrywiol ddarnau o ddeddfwriaeth.
- Cafwyd 134 o ymatebwyr i arolwg yr ymarferiad proffilio cymunedol, a gynhaliwyd gan Gymdeithas y Gymuned BME. Gan y gymuned Bangladeshi y cafwyd y nifer uchaf o ymatebion, ac roedd nifer sylweddol gan y cymunedau o Sri Lanka, Pacistan a Gwlad Pwyl. Cynhyrchwyd adroddiad ar y canfyddiadau ac fe'i cyflwynwyd i'r Grŵp Cydraddoldeb a Chydlyniant Cymunedol ym mis Hydref 2018.  Mae'r ymarferiad wedi'n helpu i ddeall yn well gyfansoddiad ein cymunedau BME, ac rydym ni'n gweithio gyda Chymdeithas y Gymuned BME, trwy ein Grŵp Cydraddoldeb a Chydlyniant Cymunedol i roi sylw i'r pryderon, y materion a'r rhwystrau mae'r cymunedau hyn yn eu hwynebu.
- Bu Cymdeithas y Gymuned BME a Chanolfan St Paul yn edrych ar y posibilrwydd o sefydlu gweithgareddau garddio (un o argymhellion proffil y gymuned oedd tyfu bwydydd arbenigol), ond gwaetha'r modd, ni ddangosodd y cymunedau unrhyw ddiddordeb. Fodd bynnag, gan fod cynllun garddio eisoes yn bodoli ar Dir Morfa, edrychir ar y fenter hon eto.

- Y mae 59 o wahanol ieithoedd a thafodieithoedd yn cael eu siarad mewn ysgolion ar draws Castell-nedd Port Talbot gyda 722 disgyblion allan o 20,764 yn siarad iaith gyntaf heblaw Cymraeg neu Saesneg.

## Amcan Cydraddoldeb 5 - Cyflwyno hyfforddiant i'r staff yn unol â gofynion y Ddeddf Cydraddoldeb

### Beth wnaethon ni?

- Rydym ni'n parhau i gyflwyno hyfforddiant WRAP (Gweithdy i Gynyddu Ymwybyddiaeth o Prevent), a achredwyd gan y Swyddfa Gartref, i'r staff.  Daeth 490 o staff (gan gynnwys 95 o sefydliadau allanol) i sesiynau Ymwybyddiaeth Prevent yn ystod 2018-2019.
- Bu'r Cydgysylltydd Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol a Chymorth i Ddioddefwyr yn cydweithio i ddylunio a chyflwyno hyfforddiant 'hyfforddi'r hyfforddwr' ar droseddau atgasedd i staff y Cyngor yn ystod y flwyddyn. Cynigiwyd ystod eang o bynciau cysylltiedig â chydraddoldeb gan yr is-adran hyfforddiant, gan gynnwys ymwybyddiaeth o dementia, ymwybyddiaeth o dyslecsia, masnachu pobl a hyfforddiant hunaniaeth rhywedd a thrawsrywedd.  Cafodd rhyw 2,000 o staff eu hyfforddi, ynghyd â bron 400 o sefydliadau partner ac 20 o ofalwyr maeth a ddaeth i sesiwn 'Gweithio gyda Rhieni sydd ag Anabledd Dysgu'.

**Amcan Cydraddoldeb 6 - Gwella mynediad i'r amgylchedd drwy ddiwallu anghenion pobl o grwpiau a amddiffynnir lle mae'r anghenion hynny'n wahanol i anghenion pobl eraill**

**Beth wnaethon ni?**

- Yn ystod 2018-2019 ailsefydlwyd ein darpariaeth dwrisiaeth a sicrhaodd y tîm £253,000 o gyllid i hyrwyddo a datblygu Castell-nedd Port Talbot.  Roedd hyn yn cynnwys arian cyfalaf i gyflwyno canolbwynt i ymwelwyr ym maes parcio camlas Nedd yn Resolfen, gan gynnwys moderneiddio'r cyfleusterau presennol o ran tai bach (oedd yn cynnwys toiledau dynodedig i'r anabl), creu caffi gyda mynediad ramp a phwynt gwybodaeth digidol a fydd yn cael ei osod ar uchder sy'n hygyrch i bob defnyddiwr.
- Mae'r Tîm Twristiaeth yn parhau i gyflwyno'r 'Prosiect Datblygu Twristiaeth yng Nghastell-nedd Port Talbot' sy'n ceisio datblygu gwybodaeth y diwydiant twristiaeth am yr ardal trwy gyfres o ddigwyddiadau 'Ymdeimlad o Le' sy'n canolbwyntio ar archwilio teithiau cerdded 'heb eu darganfod' yn ardaloedd y cymoedd. Mae'r prosiect hefyd wedi cynhyrchu fideograffiaeth a ffotograffiaeth o ansawdd uchel, er mwyn i fusnesau twristiaeth yn ardaloedd y cymoedd fedru hyrwyddo'r ardal yn fwy effeithiol. Llywiwyd y gwaith hwn gan ganfyddiadau'r ymarferiad ymchwil ymwelwyr a gynhaliwyd yn ystod 2018-2019, a nododd resymau demograffig ymwelwyr dros ymweld â'r ardal.
- Roedd y gwaith ar lwybr halio camlas Nedd, a wnaed yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, yn cynnwys creu llwybr teithio llesol ar y llwybr halio rhwng Castell-nedd (Zoar's Ark) a Llansawel. Roedd y llwybr presennol mewn cyflwr gwael; roedd ganddo arwyneb llwch cerrig, gyda rhigolau a thyllau mynych, ac roedd sawl rhwystr ar ei hyd oedd yn gofyn bod beicwyr yn disgyn o'u beiciau, ac yn atal mynediad i rai defnyddwyr cadair olwyn. Roedd y gwaith yn cynnwys rhoi arwyneb tarmac llyfn ar y llwybr ac amnewid rhwystrau am folardiau, fel bod mynediad i bawb, ond bod ceir yn cael eu hatal.
- Cynhaliwyd archwiliad dan arweiniad yr Aelodau oedd yn canolbwyntio ar hygyrchedd canolfannau dinesig, gan gynnwys yr ystafelloedd cyfarfod cyhoeddus. Mae Grŵp Archwilio Anabledd wedi cael ei sefydlu i'r Aelodau, ac mae'r Aelodau wrthi ar hyn o bryd yn adolygu'r canfyddiadau er mwyn ein helpu i sicrhau bod ein cyfleusterau ar gyfer cyfarfodydd yn caniatáu i bobl o bob cefndir gael mynediad i'r cyfarfodydd a chyfranogi ynddynt.

- Fel rhan o'n hymrwymiad parhaus i wella mynediad rydym ni'n dal i osod croesfannau i'r anabl/gostwng cerrig cwrbyn lle mae hynny'n rhoi'r budd mwyaf; yn ystod 2018-2019 gosodwyd 11 o 'setiau' o ganlyniad i geisiadau unigol a gwaith gwella/adeiladu a gynlluniwyd.

**Amcan Cydraddoldeb 7 - Lleihau'r bylchau yn y perfformiad addysgol a brofir gan ddisgyblion oherwydd eu nodweddion a amddiffynnir**

## 1. Cynyddu lefelau presenoldeb disgyblion sydd â'r nodweddion a amddiffynnir yn yr ysgol

### Beth wnaethon ni?

- Mae presenoldeb mewn ysgolion cynradd wedi bod yn weddol gyson rhwng y ddwy flwyddyn academaidd (94.02% yn 2018-2019, o gymharu â 94.14% yn 2016-2017). Fodd bynnag, roedd peth gwelliant yn lefelau presenoldeb disgyblion sy'n deithwyr (84.58% o gymharu â 81.14%) a'r rhai oedd â hunaniaeth Prydeinig heb fod yn wyn (93.63% o gymharu â 93.45%) **(Mae'r holl ffigurau'n dal yn rhai dros dro)**
- Roedd presenoldeb yn yr ysgol uwchradd yn weddol gyson rhwng y ddwy flwyddyn academaidd (93.46% yn 2018-2019 o gymharu â 93.48% yn 2016-2017). Fodd bynnag, gwelwyd gwelliannau presenoldeb ymhlith y disgyblion oedd â hunaniaeth Brydeinig heb fod yn wyn a'r rhai ag anghenion addysgol arbennig (94.40% o gymharu â 94.03% a 91.47% o gymharu â 91.27% yn eu tro), tra bod gostyngiad sylweddol ym mhresenoldeb disgyblion oedd yn deithwyr yn ystod yr un cyfnod (76.62% o gymharu â 78.05%).
- Mae'r Gwasanaeth Llesiant ac Ymddygiad yn gweithio gyda gweithwyr proffesiynol allweddol i gefnogi ysgolion i ddiwallu anghenion disgyblion ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol (SEBD). Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant, dulliau gweithredu ysgol gyfan a mentrau amlasiantaeth, ac mae'r adborth ynghylch effaith y gwaith yn gadarnhaol. Mae continwwm o gefnogaeth ar gyfer disgyblion ag Anghenion SEBD yn ei le, ac rydym yn ychwanegu ato'n barhaus ac yn ei ddatblygu oherwydd yr anghenion mwyfwy cymhleth. Mae datblygiad mentrau amlasiantaeth yn allweddol i sicrhau bod anghenion disgyblion yn cael eu cefnogi'n gyfannol, ynghyd ag anghenion eu teuluoedd a'u cymunedau. Enghraifft o hyn yw peilota mentrau cefnogi amlasiantaeth, dan arweiniad yr heddlu, wedi'u cysylltu ag ysgolion peilot. Mae'r canlyniadau wedi cynnwys gostyngiad yn nifer yr hysbysiadau diogelu'r cyhoedd, gwell presenoldeb ac ymddygiad gan ddisgyblion yn yr ysgol, a rhieni'n ailgysylltu â chyflogaeth a hyfforddiant.
- Cafwyd cyfanswm o 18 o waharddiadau parhaol yn ystod blwyddyn academaidd 2018-2019, bron dwbl y nifer yn y flwyddyn academaidd flaenorol. Er bod nifer y gwaharddiadau ysgol gynradd wedi parhau'n gyson ar un, cododd

nifer y gwaharddiadau ysgol uwchradd i 17; 13 o fechgyn a 4 o ferched. Yn fwy arwyddocaol, cododd nifer y disgyblion ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) a gafodd eu gwahardd o 7 i 13.

## 2. Lleihau'r bylchau yng nghyrhaeddiad perfformiad addysgol bechgyn a merched yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnodau Allweddol (CA) 2 a 3

### Beth wnaethon ni?

- Yn dilyn ymweliadau cefnogi yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, roedd disgwyl i bob ysgol gynradd asesu a thargedu gwelliant o ran sgiliau a llesiant disgyblion. Mae cynnydd cryf yn parhau i gael ei wneud yn y maes hwn, ac mae ysgolion bellach mewn sefyllfa gryfach i ymateb i ofynion datblygu'r cwricwlwm er mwyn ymdrin â lefelau sgiliau disgyblion
- Ym mis Medi 2017 rhoesom ein Strategaeth Arweinyddiaeth ar waith, gyda'r nod o ddatblygu arweinwyr ysgol hyderus, uchelgeisiol, sy'n gallu rheoli newid yn effeithiol. O ganlyniad, mae ysgolion yn dod yn fwy medrus ac effeithiol wrth wella safonau a llesiant disgyblion.
- Ers i'r trefniadau arolygu newydd gael eu cyflwyno ym mis Medi 2017, mae 20 o ysgolion wedi cael eu harolygu hyd yma, ac o'r rhain:
    - Mae 18 allan o 20 wedi cael eu graddio'n 'Dda' neu'n well ar gyfer Safonau.
    - Rhoddwyd gradd 'Da' neu well i bob un o'r 20 ysgol am Ofal, Cefnogaeth ac Arweiniad.
    - Mae 19 allan o 20 wedi cael eu graddio'n 'Dda' neu'n well ar gyfer Llesiant ac Agweddau at Ddysgu
    - Mae 18 allan o 20 wedi cael eu graddio'n 'Dda' neu'n well ar gyfer Arweinyddiaeth.
- Cododd nifer yr ysgolion oedd yn y categorïau gwyrdd neu felyn ym mlwyddyn academaidd 2018-2019 i 98%. Dyma'r ffigur uchaf ers i gategoreiddio gael ei gyflwyno yn 2014-2015.
- Mae pum gweithiwr ieuenctid amser llawn ac un rhan amser Etifeddiaeth Cymunedau yn Gyntaf yn cefnogi'r holl ysgolion uwchradd drwy ddarparu cymorth wedi'i deilwra i bob ysgol, ac mae'r gweithiwr rhan amser yn darparu cymorth trwy gyfrwng y Gymraeg i ddisgyblion Ysgol Gyfun Ystalyfera. Mae hyn yn cynnwys cefnogaeth un i un,

ymweliadau cartref, gwaith y tu allan i ysgolion a chyda grwpiau bach ym mlynyddoedd 9-11 i'w cefnogi yn eu dysgu.

- Hyd yma mae prosiect Cynnydd, sy'n gweithredu ar draws de-orllewin Cymru i leihau nifer y bobl ifanc 11-24 oed sydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET), wedi gweithio gyda 508 o bobl ifanc, a gadawodd 89% y prosiect â chanlyniad cadarnhaol oedd yn lleihau'r risg o fod yn NEET. Hyd yma mae 90 o bobl ifanc wedi caffael cymhwyster o ganlyniad i gefnogaeth Cynnydd.
- Mae lefelau cyrhaeddiad bechgyn yn dal i ostwng mewn llythrennedd a rhifedd yng Nghyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3, ac eithrio cyrhaeddiad ym maes llythrennedd, lle gwelwyd gwelliant sylweddol, 80.48% o gymharu â 78.31% ym mlwyddyn academaidd 2017-2018.
- Mae cyrhaeddiad merched wedi gostwng yn drawiadol yn 2018-2019 mewn llythrennedd a rhifedd ar draws yr holl gyfnodau allweddol.
- Cododd nifer y disgyblion sy'n deithwyr o 55 (Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion -PLASC) i 75 (PLASC 2019), gyda 56 mewn ysgolion cynradd, 13 mewn ysgolion canol, a 6 mewn ysgolion uwchradd. Mae'n anodd tracio'r niferoedd oherwydd natur deithiol y gymuned. Yn dilyn hyn, mae'n bosibl na fydd rhai teuluoedd am gael eu nodi fel Sipsiwn/Teithwyr, ond gallant geisio cefnogaeth gan y gwasanaeth. Nid yw'r ffigurau'n cymryd i ystyriaeth blant y ffair a'r syrcas sy'n derbyn cefnogaeth y tu allan i'r ysgol.
- Yn ystod y tair blynedd diwethaf, mae'r niferoedd ar draws yr holl gyfnodau allweddol wedi parhau'n rhifau unigol, gan arwain at amrywiadau mawr o ran cyrhaeddiad o un flwyddyn i'r nesaf. Yn 2019 cyflawnodd dau o blith chwe disgybl y Dangosydd Cyfnod Sylfaen (33.3%), yng Nghyfnod Allweddol 2 cyflawnodd saith o blith naw disgybl (77.8%) y Dangosydd Pynciau Craidd (Mathemateg, Saesneg neu Gymraeg a Gwyddoniaeth), ond ni chyflawnodd yr un o'r tri disgybl Cyfnod Allweddol 3 y Dangosydd Pynciau Craidd. Yn ystod y tair blynedd diwethaf (2016-2019) dim ond pedwar teithiwr o blith y sipsiwn sydd wedi bod yn y garfan Cyfnod Allweddol 4, ac nid yw'r un ohonynt wedi cyflawni'r dangosydd L2+ (5 TGAU gan gynnwys Saesneg a Mathemateg).
- Ym mhob cyfnod allweddol, mae disgyblion y mae'r Saesneg yn Iaith Ychwanegol iddynt (EAL) yn rhagori ar berfformiad eu cyfoedion yn yr holl ddangosyddion allweddol. Yn ystod y tair blynedd diwethaf (2016-2018), mae disgyblion EAL wedi rhagori'n sylweddol ar y ffigurau EAL cenedlaethol. Ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4, mae disgyblion EAL yn rhagori ar berfformiad eu cyfoedion yn gyson ar lefel genedlaethol, ac ar berfformiad disgyblion

nad yw'r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt yn lleol. Mae disgyblion EAL yn perfformio'n well na'r cyfartaledd cenedlaethol 3-blwyddyn (2016-2018) yng Nghyfnod Allweddol 4.

- **Cyrhaeddiad merched ar draws llythrennedd a rhifedd yng Nghyfnod Allweddol 4 - gwybodaeth ar gael ym mis Rhagfyr**
- **Cyrhaeddiad bechgyn ar draws llythrennedd a rhifedd yng Nghyfnod Allweddol 4 - gwybodaeth ar gael ym mis Rhagfyr**

**Amcan Cydraddoldeb 8 - Sicrhau bod ein prosesau cyflogaeth a recriwtio yn hybu tegwch a chydraddoldeb i bawb.**

**Beth wnaethon ni?**

- Rydym wedi creu swydd iechyd meddwl newydd ran amser i ddarparu ymyriadau adweithiol fydd yn cefnogi'r rhai y nodwyd eisoes bod ganddynt gyflyrau iechyd meddwl, yn ogystal ag er mwyn datblygu rhaglenni iechyd meddwl ataliol.
- Yn ystod 2018-2019, aeth 29 o reolwyr i hyfforddiant recriwtio oedd yn sicrhau eu bod yn cael eu gwneud yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 mewn perthynas â gwneud addasiadau rhesymol, yn y cyfweliad ac wrth ystyried yr ymgeisydd gorau ar gyfer y swydd, a thrwy hynny sicrhau proses deg a thryloyw.
- Rydym ni'n parhau i fod yn gyflogwr sy'n Hyderus ynghylch Anabledd. Mae'r Cynllun Hyderus ynghylch Anabledd yn annog cyflogwyr i fod yn fwy hyderus er mwyn cyflogi a chadw pobl anabl, cynyddu dealltwriaeth o anabledd a manteision cyflogi neu gadw pobl anabl, er mwyn gwneud cyfraniad sylweddol at haneru bwlch cyflogaeth pobl ag anabledd. Trwy barhau â'n taith Hyderus ynghylch Anabledd rydym ni'n sicrhau bod pobl ag anabledd a'r rhai sydd â chyflyrau iechyd tymor hir yn cael cyfleoedd i gyflawni eu potensial a gwireddu eu dyheadau.

  Yn 2018-2019, arhosodd cyfran y cyflogeion du ac o leiafrifoedd ethnig yn y gweithlu cyfan ar 1%, er bod cynnydd o ddau yn union nifer y cyflogeion unigol.

**Amcan y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau - Datblygu data cyflog/cyflogaeth ymhellach er mwyn deall yn well y rhesymau am y bwlch cyflog rhwng y rhywiau a nodi unrhyw gamau gweithredu a allai fod yn ymarferol i gau'r bwlch cyflog.**

**Beth wnaethon ni?**

- Rydym wedi bod yn gweithio i ganfod rhesymau dros y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn y Cyngor, a ffyrdd o ymdrin â hynny. Ym mis Medi 2018, cyhoeddwyd ein hadroddiad cyntaf ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar gyfer y cyfnod 2017-2018, a byddwn ni'n cyhoeddi ein hail adroddiad ym mis Rhagfyr 2019 (ar gyfer y cyfnod 2018-2019). Bydd yr wybodaeth hon yn yr 'Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb Cyflogaeth'.
- Ar 14 Ionawr 2019, rhoddodd y Pwyllgor Personél gymeradwyaeth i'r Cyngor danysgrifio i Gynllun Cyflogwr Chwarae Teg am gyfnod o 12 mis. Mae'r Cynllun yn cefnogi sefydliadau i ddatblygu cynlluniau gweithredu cydraddoldeb rhywedd, gan ddefnyddio dadansoddiad o'r data sydd ar gael am y gweithlu, ystyried arferion cyflogwyr, wedi'u paru ag argymhellion arfer gorau y cafwyd tystiolaeth ohonynt, yn ogystal â chamau gweithredu i leihau'r bylchau cyflog rhwng y ddwy ryw.
- Fel man cychwyn, yn ystod Mehefin 2019, lansiodd Chwarae Teg arolwg i'n gweithwyr, i ganfod sut brofiad yw gweithio yn y Cyngor, a chafwyd cyfradd ymateb o 32%. Bydd canlyniadau'r arolwg yn cael eu dadansoddi gan Chwarae Teg, a bydd adborth yn cael ei ddarparu yn ystod mis Awst 2019. Yna bydd Chwarae Teg yn ein cefnogi i lunio 'Cynllun Gweithredu ar gyfer Cydraddoldeb Rhywedd', a fydd yn ein helpu i roi sylw i unrhyw anghydraddoldebau rhywedd a nodwyd a'n cynorthwyo i ddatblygu camau gweithredu fydd yn helpu i leihau ein bwlch cyflog rhwng y rhywiau.
- Er bod y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn y Cyngor yn is na chanolrif y bwlch cyflog rhwng y rhywiau (y gwahaniaeth rhwng pwynt canol ystod graddfa dynion a benywod fesul awr) ar draws y Deyrnas Unedig, rydym yn ymroddedig i weithredu'r camau o'r 'Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Rhywedd' er mwyn helpu i gau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau.

## Adran 4 – Cyflawni Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a Dyletswyddau Penodol

Wrth gyflawni'r amcanion cydraddoldeb rydym ni'n dal yn ymwybodol o'r heriau ariannol parhaus, y gostyngiad yn ein capasiti, y disgwyliadau uwch a'r newid yn nemograffeg Castell-nedd Port Talbot. Ein nod yw cyflawni ein holl waith gydag ymwybyddiaeth o Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, a chydag ymroddiad i'r ddyletswydd honno.

Mae canolbwyntio ein hymdrechion ar wella hygyrchedd ein gwefan, gweithio i roi sylw i droseddau atgasedd a thrais domestig, a gwella ein proses asesu effaith wedi'n galluogi i helpu i wella meysydd sy'n cael effaith fawr ar fywydau pobl.

Rydym wedi rhoi pwyslais cryf ar sicrhau cydraddoldeb a dathlu amrywiaeth ar draws ein holl ystod o weithgareddau. Hefyd mae cydnabyddiaeth a gwaith i ymdrin ag anghydraddoldebau ym mhob ffurf, p'un a yw hynny mewn perthynas â dyletswyddau statudol sy'n ymwneud â phobl â nodweddion a amddiffynnir, yn anghydraddoldeb a achosir gan wahaniaethau incwm, neu yn ôl a yw plant a phobl ifanc yn derbyn gofal gan eu teuluoedd eu hunain neu gan y cyngor.

Rydym wedi bod yn awyddus i weithio tuag at ddull gweithredu mwy cyfannol yn ein gwaith, gan gynnwys ymdrechion i sicrhau cyfatebiaeth well rhwng ein hamcanion cydraddoldeb a blaenoriaethau gwelliant corfforaethol, fel bod unrhyw gynnydd a wneir yn cydweddu â'r ddwy elfen honno. Mae'r cynnydd yn erbyn ein blaenoriaethau gwelliant a'r amcanion llesiant i'w gweld yn Adroddiad Blynyddol y Cynllun Corfforaethol 2018-2019.

Yn dilyn trafodaethau hir gyda Chomisiynydd blaenorol y Gymraeg a'i chynrychiolwyr cawsom hyd i ffordd ymlaen oedd yn dderbyniol o'r ddeutu mewn perthynas â'r her a gyflwynwyd i weithredu 54 o safonau, a chafwyd penderfyniad terfynol ym mis Ebrill 2018. Roedd hyn yn cloi dwy flynedd o gyd-drafod a arweiniodd at amrywio'r safonau, yn ogystal â dealltwriaeth gliriach o'r hyn sy'n ofynnol.

Cyhoeddwyd ein Hadroddiad Blynyddol ar Safonau'r Iaith Gymraeg 2018-2019 ar 30 Mehefin 2019 yn unol â gofynion statudol.

Ym mis Ionawr 2018 sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen, o blith aelodau Pwyllgor Craffu'r Cabinet, er mwyn datblygu Strategaeth Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg yng Nghastell-nedd Port Talbot. Gyda chefnogaeth a chyngor gan Fenter Iaith Castell-nedd Port Talbot, drafftiodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen y strategaeth a'r cynllun gweithredu, a bu'n destun ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod Mai a Mehefin 2018. Yn dilyn ymgynghori cafodd y strategaeth a'r cynllun gweithredu eu diwygio a'u mabwysiadu gan y Cyngor ar 26 Medi 2018. Cyflwynir yr Adroddiad Blynyddol cyntaf ar y strategaeth i'r Cabinet ym mis Rhagfyr 2019.

**Nodi a chasglu gwybodaeth berthnasol**

Daliwyd ati i ymgysylltu ag aelodau o'r cyhoedd, partneriaid, cymunedau lleol a grwpiau diddordeb i gasglu gwybodaeth, a fu o gymorth i ffurfio'n hamrywiol strategaethau, polisïau a chynlluniau, yn ogystal â dylanwadu ar gyflwyno ein gwasanaethau.

Mae canfod a chasglu gwybodaeth yn dal yn elfen allweddol, yn arbennig o'r broses asesu effaith, a thrwy gasglu gwybodaeth berthnasol fel rhan o ddarparu gwasanaeth rydym mewn sefyllfa well i ddeall cymhlethdod ein bwrdeistref sirol a defnyddio'r wybodaeth hon wrth ddatblygu polisi a gwasanaethau.

Rydym ni'n dal i weld gwelliannau yn y data cyflogaeth sy'n cael ei gasglu a'i ddadansoddi o ganlyniad i estyn y Porthol Cyflogeion, lle gall staff ddiweddaru eu cofnodion unigol eu hunain. O ganlyniad rydym ni'n gallu deall ein gweithlu'n well, ac yn sgîl hynny ddatblygu polisïau mewnol sy'n cael eu llywio gan wybodaeth fwy cadarn.

Mae'r fenter proffilio cymunedol a gynhaliwyd gan Gymdeithas y Gymuned BME yng Nghastell-nedd Port Talbot wedi darparu data penodol, cadarn ynghylch ein cymunedau BME, eu pryderon a'u profiadau o fyw yng Nghastell-nedd Port Talbot. Gan ddefnyddio'r data hwn, byddwn nid yn unig yn gallu datblygu polisïau a gwasanaethau sydd wedi'u seilio'n well ar wybodaeth, ond hefyd trwy weithio gyda Chymdeithas y Gymuned BME a sefydliadau a chymunedau eraill lleol sy'n briodol, bydd y data hwn yn llywio mentrau lleol i ddarparu canlyniadau cadarnhaol.

**Rhai enghreifftiau o'n gwaith arall yn ystod 2018-2019 i gyflawni Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus**

- Mae Cyngor Ieuenctid Castell-nedd Port Talbot bellach wedi'i ethol yn llawn, gyda phobl ifanc a etholwyd o ysgolion a hefyd o grwpiau diddordeb arbennig fel Plant sy'n Derbyn Gofal, Clwb Iaith a Lleferydd, Gofalwyr Ifanc, Lesbiaidd Hoyw Deurywiol Trawsrywiol Queer + a Cholegau.
- Mae person ifanc o'r Cyngor Ieuenctid yn aelod o Fwrdd Ymgynghorol y Comisiynydd Plant ar hyn o bryd, ac mae un arall wedi'i ethol yn Aelod o'r Senedd Ieuenctid dros Gastell-nedd Port Talbot, ac wedi ennill Gwobr Rhagoriaeth Ieuenctid yn 2018.
- Cynhaliwyd sesiynau Cynyddu Ymwybyddiaeth o Ofalwyr Ifanc mewn ysgolion, a bu 1,500 o bobl ifanc yn cymryd rhan ynddynt.
- Cafodd ein trefniadau caffael eu gwella trwy ymrwymo i'r RhaglenCadwyni Cyflenwi Moesegol. Mae hyn yn gwneud ymrwymiad i sicrhau ein bod yn edrych yn weithredol ar darddiad ein nwyddau a'n gwasanaethau, er mwyn sicrhau bod y trefniadau hynny'n foesegol.
- Mae gennym Gynllun Grantiau'r Trydydd Sector a gynhyrchwyd ar y cyd â chynrychiolwyr o'r trydydd sector yn lleol.
- Y llynedd, cymeradwywyd y Strategaeth Cyfathrebu Corfforaethol a Chysylltiadau Cymunedol (2018-2020) . Datblygwyd y Strategaeth i'n helpu i gyflawni'r gofyn o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i gynnwys pobl yn y gwaith rydym ni'n ei wneud. Fe'i lluniwyd hefyd i sicrhau bod ein hymdrechion cyfathrebu a chysylltiadau cymunedol yn fwy cyson, effeithiol a pherthnasol.
- Mae rhaglenni i addysgu plant a phobl ifanc am raglenni diogelwch cymunedol ehangach wedi ennill eu plwyf, ac rydym wedi bod yn adolygu ein rhaglenni yn barhaus er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n berthnasol. Er enghraifft, mae paratoi plant a phobl ifanc i gadw'n ddiogel ar-lein wedi bod yn ffocws allweddol.
- Mae ffocws arbennig ar y plant sy'n wynebu'r risg uchaf o brofiad niweidiol yn ystod eu plentyndod, gyda'r bwriad o gryfhau gwaith ataliaeth ac ymyrraeth gynnar. Rydym hefyd yn adeiladu ar ein gwaith hawliau plant er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael lleisio barn ar faterion sy'n effeithio arnynt.

- Rydym ni'n parhau i weithio gyda chwmnïau bysiau a sefydliadau trafnidiaeth gymunedol i wella cysylltedd trafnidiaeth ein cymunedau. Rydym hefyd yn cefnogi'r Gymdeithas Trafnidiaeth Gymunedol gyda'u prosiect 'cysylltu cymunedau' ac i ddatblygu cynlluniau ceir cymunedol yn ein cymoedd, i helpu'r trigolion i gael mynediad i gyfleusterau iechyd.
- Cynhaliwyd ein digwyddiad blynyddol Mis Hanes Pobl Ddu (BHM), yng ngofal y Tîm Cefnogi Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig (MEAS) a disgyblion o'n hysgolion ym mis Tachwedd 2018. Thema digwyddiad 2018 oedd 'Eiconau'r Gymru Ddu', lle buom ni'n arddangos y doniau yn ein hysgolion ac yn cydnabod ac yn dathlu cyflawniadau ein pobl ifanc Du ac o Leiafrifoedd Ethnig (BME) ac eraill yn lleol, yn genedlaethol ac ar y llwyfan byd-eang.
- O ganlyniad i golli cyllid ar gyfer y timau MEAS a Chefnogi Addysg Sipsiwn a Theithwyr, crëwyd Gwasanaeth ar raddfa lai ar gyfer Dysgwyr Bregus. Er ein bod yn parhau i roi cefnogaeth i ddisgyblion ar draws yr holl grwpiau oed, mae'n debygol y bydd y gostyngiad yn ein capasiti yn cael effaith ar y rhai sydd ymhlith y mwyaf agored i niwed yn ein hysgolion.
- Mae cerdyn mynediad wedi cael ei ddatblygu gan Gymdeithas y Gymuned BME i helpu i adnabod y bobl hynny sydd â gafael gyfyngedig ar y Gymraeg neu'r Saesneg. Nododd y gwaith proffil cymunedol a wnaed nifer o bobl nad ydynt yn cyrchu gwasanaethau, neu y mae angen iddynt ddibynnu ar ddulliau amhriodol o gael mynediad i wasanaethau oherwydd rhwystrau iaith. Rhagwelir y bydd y cerdyn yn cael ei gyflwyno yn ystod 2019-2020.
- Cafwyd cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer swydd newydd Swyddog Cydlyniant Cymunedol, i gefnogi'r gwaith o gyflwyno Cynllun Cyflawni Cydlyniant Cymunedol Bae'r Gorllewin. Bydd deilydd y swydd, trwy gydweithio â'r Cydgysylltydd Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol, yn nodi ac yn lliniaru tensiynau cymunedol, yn arbennig o ganlyniad i Brexit, ac yn cydlynu ymateb amlasiantaeth i ddatblygu atebion yn y gymuned. Rhagwelir y bydd y recriwtio i'r swydd hon wedi'i gwblhau erbyn mis Tachwedd 2019.
- Ym mis Medi 2018, cafodd cynllun Cynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru ei beilota mewn 14 ward yng Nghastell-nedd Port Talbot a'i estyn i bob ward erbyn diwedd Ionawr 2019.  Ym mis Gorffennaf 2019 roedd 775 o geisiadau gweithredol (wedi'u cymeradwyo) am y cynnig.
- Trefnwyd digwyddiad ymgysylltu gyda phartneriaid allweddol i ystyried yr ymchwil ar brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod a'r '1,000 diwrnod cyntaf' ym mywyd plentyn. Daeth y digwyddiad â 165 o ymarferwyr rheng flaen

ynghyd o bob rhan o'r gwasanaethau cyhoeddus a'r trydydd sector i ddechrau mapio'r systemau presennol a chanfod gwelliannau i helpu pob plentyn i gael y dechrau gorau mewn bywyd. Ffocws y digwyddiad oedd gweithio'n fwy effeithiol gyda'n gilydd i ddatblygu cyfleoedd ar gyfer ataliaeth ac ymyrraeth gynharach. Wedi'r digwyddiad paratowyd adroddiad gydag argymhellion i symud y gwaith ymlaen. Llwyddwyd hefyd i sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru i gynnal digwyddiadau ymgysylltu ynghylch 'y 1,000 diwrnod cyntaf' yn y dyfodol.

- Mae gwasanaethau pellach wedi cael eu cynnwys yn y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf i ddarparu cyfleoedd cymdeithasol i blant a phobl ifanc 0-25 oed sydd ag anabledd.
- Cefnogodd y Gwasanaeth Ieuenctid 12 Clwb Ieuenctid cymunedol oedd yn darparu mynediad i bobl ifanc 11-18 i ystod o weithgareddau addysgol, cymdeithasol a hamdden (mae clybiau o'r fath yn gwneud cyfraniad cadarnhaol o safbwynt gwneud gwahaniaeth i lesiant cymdeithasol, diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol y bobl ifanc).
- Ers mis Ebrill 2018 mae Teuluoedd yn Gyntaf a'r Gwasanaeth Ieuenctid wedi cyflwyno darpariaeth wedi'i thargedu yn y gymuned i gefnogi grwpiau bregus o bobl ifanc sy'n ofalwyr, yn lesbiaidd, yn hoyw, yn ddeurywiol neu'n drawsrywiol, a'r rhai sydd ag anghenion iaith, lleferydd a chyfathrebu, yn ogystal â chymorth llwyth achosion un i un dyddiol ar gyfer pobl ifanc sy'n fregus.
- Fel rhan o fonitro'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf, rydym yn ceisio data cydraddoldeb gan bob cyfranogwr, i wella ein dealltwriaeth o'n defnyddwyr cyfredol a'n helpu i dargedu darpariaeth at bob grŵp. Mae bwriad i newid ffurflen gydraddoldeb y rhaglen yn dilyn adborth gan glwb ieuenctid LHDTQ+ y rhaglen (Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol, Trawsrywiol a Queer +). Rydym hefyd wedi ymgysylltu â defnyddwyr ar hyd y flwyddyn, gan gynnwys plant a phobl ifanc trwy'r clybiau ieuenctid a'r gwasanaethau anabledd, er mwyn deall effaith y gwasanaethau ac unrhyw feysydd lle gellid gwella.
- Mae'r Rhaglen Pobl Ifanc Actif yn cynnig ystod o weithgareddau i annog cyfranogiad holl aelodau'r gymuned. Mae'r Rhaglenni Bywydau Parc a Gêmau Stryd yn cael eu cyflwyno yng nghalon cymunedau, ac mae nifer o wahanol sesiynau wedi cael eu trefnu yn ardaloedd mwyaf difreintiedig y fwrdeistref sirol.  Mae nifer dda yn dod i'r sesiynau ac mae clybiau chwaraeon anabledd penodol wedi cael eu sefydlu, ac yn cael eu cefnogi'n dda.
- Y llynedd fe wnaethom ni adolygu ein Cynllun Strategol ar gyfer y Gymraeg mewn Addysg (2017-2020) (WESP). Mae'r Cynllun yn nodi sut rydym yn bwriadu cefnogi a datblygu ymhellach addysg Gymraeg mewn ysgolion ac yn y cymunedau ehangach, a sut rydym ni'n cynllunio ar gyfer twf yn y dyfodol. Mae wedi'i alinio â pholisi ac

arweiniad cenedlaethol er mwyn cyfrannu at nod Llywodraeth Cymru o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

- Mae ysgolion wedi cael eu cefnogi i wreiddio dull gweithredu seiliedig ar hawliau yn fframwaith ar gyfer llesiant yn eu hysgolion. Lansiwyd hwn yn y gynhadledd lesiant ym mis Mehefin 2018. Hyd yma mae 39 o ysgolion wedi ymrwymo i'r Dyfarniad Ysgolion sy'n Parchu Hawliau gyda UNICEF. Cynhaliwyd digwyddiad hyfforddi ar gyfer ysgolion oedd yn cychwyn ar y dyfarniad Efydd fis Tachwedd diwethaf, a dosbarthwyd pecynnau Parchu Hawliau i'r holl ysgolion a ymrwymodd i'r cynllun. Mae 41 o ysgolion wedi ymrwymo, gydag 19 ohonynt yn cyflawni'r Efydd a 9 yn cyflawni'r Arian.
- Bu 30 aelod o staff o'r Bartneriaeth Think Families, prosiectau a gomisiynwyd gan Teuluoedd yn Gyntaf, ysgolion, Gwasanaethau Plant a'r GIG yn mynychu hyfforddiant cyfranogiad wedi'i achredu ar 26 a 27 Mawrth yn Orendy Margam. Bwriad y cwrs dau ddiwrnod oedd gwella gwybodaeth a dealltwriaeth ynghylch cyfranogiad plant a phobl ifanc, a datblygu gallu staff i wreiddio hynny yn eu hymarfer. Nododd 100% o'r rhai oedd yn bresennol a lanwodd ffurflenni adborth fod eu gwybodaeth am gyfranogiad plant a phobl ifanc wedi gwella, yn ogystal â'u hyder i gymhwyso'r wybodaeth honno.
- Ym mis Hydref 2018, cynhaliwyd digwyddiad i staff y cyngor, i ddathlu 100 mlynedd ers ymgyrch benywod i gael pleidlais. Fe'i cynhaliwyd gan Faer Castell-nedd Port Talbot, gyda phanel oedd yn cynnwys yr Aelod Cabinet ar gyfer Gwasanaethau Corfforaethol a Chydraddoldebau, Cadeirydd Pwyllgor Craffu Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Llesiant, Arweinydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ac ysgrifennydd Cangen leol Unsain, i drafod eu profiadau fel Benywod ym myd gwleidyddiaeth a'u gobeithion i'r dyfodol.
- Ym mis Mawrth 2019, cynhaliwyd digwyddiad 'Hawl i Holi' i fyfyrwyr mewn partneriaeth â Choleg Castell-nedd. Cynhaliwyd y digwyddiad hwn gan Faer Castell-nedd Port Talbot, gyda ffocws ar y ddeddfwriaeth sy'n cael ei drafftio ar hyn o bryd gan y Cynulliad er mwyn galluogi pobl ifanc 16 oed i bleidleisio yn Etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2021.
- Cwblhawyd 300 o grantiau cyfleusterau i'r anabl yn ystod y flwyddyn, o gymharu â 258 y flwyddyn flaenorol a'r amser a gymerwyd ar gyfartaledd i gyflwyno grant oedd 232 o ddiwrnodau, o gymharu â 242 y flwyddyn flaenorol. Gellir egluro'r amrywiadau hyn i raddau helaeth yn sgîl amrywiadau yn y galw. Cwblhawyd mwy o addasiadau llai, cost isel, yn ystod y flwyddyn hon.

- Datblygwyd grŵp Anhwylderau Sbectrwm Awtistiaeth (ASD) o weithwyr proffesiynol, rhieni a gofalwyr sy'n cwrdd bob mis i lunio cynlluniau gwaith er mwyn gwella bywydau pobl ag awtistiaeth, eu teuluoedd a'u gofalwyr. Rydym hefyd wedi datblygu Cynllun Strategol ASD ac rydym wrthi'n penodi arweinydd ASD newydd i gyflwyno'r cynllun.
- Llofnodwyd Cyfamod Lluoedd Arfog Llywodraeth y Deyrnas Unedig, yn ogystal ag annog ein holl bartneriaid strategol i lofnodi'r Cyfamod. Ymhlith amcanion y Cyfamod mae annog pawb i gynnig cefnogaeth i Gymuned leol y Lluoedd Arfog, fel ei fod yn haws iddyn nhw gyrchu'r help a'r gefnogaeth sydd ar gael. Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae ein Swyddog Cyswllt ar gyfer Cyfamod y Lluoedd Arfog wedi annog cyfranogiad a rhannu gwybodaeth ymhlith sefydliadau sy'n cefnogi cyn-filwyr a theuluoedd sy'n profi problemau iechyd a llesiant; ymhlith y sefydliadau roedd Cynfilwyr Cymru y GIG (therapyddion iechyd meddwl y GIG), Newid Cam (sy'n gweithio gyda Chanolfan Gweithredu ar Ddibyniaeth a Chaethiwed Cymru (WCADA)), Poppy Factory (cyflogaeth i gynfilwyr ag anabledd), prosiect 360 Age Cymru (cymorth i gynfiwyr oedrannus a'u gofalwyr), y Lleng Frenhinol Brydeinig (Prosiect Admiral Nurse a chymorth Gartref o'r Ysbyty), BLESMA (Cefnogaeth i gynfilwyr sydd wedi colli aelodau). Gweithredu ynghylch Colli Clyw (Action on Hearing Loss), prosiect ar gyfer cyn-filwyr y mae eu clyw wedi dioddef yn sgîl eu gwasanaeth, Blind Veterans UK.
- Fel rhan o'n cefnogaeth i'r teuluoedd hynny o'r lluoedd sydd wedi profi cam-drin domestig, rydym hefyd wedi cysylltu â BAWSO, y sefydliad sy'n cefnogi benywod o gefndir ethnig sy'n profi cam-drin domestig, i drafod y materion penodol roedd benywod o wledydd y gymanwlad yn eu profi wrth gael trafferthion yn eu perthynas ar ôl priodi aelod o'r lluoedd arfog.
- Mae Aelod wedi cael ei benodi'n Hyrwyddwr y Lluoedd Arfog, er mwyn sicrhau bod llais holl aelodau cymuned y lluoedd arfog yn cael ei glywed.
- Comisiynwyd gwaith er mwyn deall yn well nifer y bobl sydd ar incwm isel ar draws y fwrdeistref sirol a'u hamgylchiadau. Byddwn ni'n defnyddio canfyddiadau'r gwaith hwn i lywio dyluniad symposiwm tlodi y byddwn ni'n ei gynnal yn hydref 2019.
- Arweiniwyd gwaith trwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i ganfod pobl oedd mewn sefyllfa fregus o ran cael eu denu i mewn i droseddu cysylltiedig â chyffuriau. Cyfarfu Grŵp Digwyddiad Critigol yn ystod 2018-2019 i nodi'r ystod o fesurau y gallai asiantaethau eu defnyddio i amddiffyn pobl agored i niwed rhag cael eu denu i mewn i 'county lines', ochr yn ochr â nodi cyfleoedd i wella mynediad at gefnogaeth i'r rhai sy'n dibynnu ar gyffuriau.

## Asesiadau Effaith Integredig

Rydym wedi adolygu a diwygio'n proses asesu effaith cydraddoldeb i gynnwys ein dyletswyddau cyfreithiol newydd a gyflwynwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, yn ogystal â chadw'r ffocws ar gydraddoldeb a'r iaith Gymraeg. Y nod fu datblygu dull mwy integredig o asesu effaith ein polisïau a'n gwasanaethau, nid yn unig ar bobl sy'n rhannu nodweddion a amddiffynnir, ond hefyd ar y gymuned ehangach, nawr ac yn y dyfodol.

Wrth i ni gyflwyno'r broses asesu newydd, a chan gydnabod profiad cyfyngedig y staff (oherwydd colli staff sylweddol yn sgîl y cyfyngiadau ariannol y buom yn eu hwynebu, ac sy'n dal yn wir), rydym wedi datblygu rhaglen hyfforddi i sicrhau bod ein staff yn deall yn llawn pam maen nhw'n cynnal asesiadau, yn ogystal â sut, pwysigrwydd ymgynghori a chynnwys, a hefyd eu bod yn cydnabod egwyddor ehangach datblygu cynaliadwy.

Cyflwynwyd proses ddiwygiedig yr asesiad effaith integredig ar draws pob maes gwasanaeth ym mis Ebrill 2019, yn dilyn oedi wrth ddarparu sesiynau hyfforddiant (oherwydd amgylchiadau annisgwyl), diwygio pellach ar y ffurflenni a'r broses, yn ogystal â'r angen am gynnal sesiynau ychwanegol ar gyfer staff perthnasol.

Cafodd Canllawiau'r Cyngor ar gyfer Adroddiadau Gweithredol ac Anweithredol/Rheoliadol eu diweddaru hefyd, i ategu gofynion deddfwriaethol cyfredol ac adlewyrchu rhai newydd. Roedd diweddaru'r canllawiau adrodd fel hyn hefyd yn gyfle i ategu sut mae'r aelodau'n cael gwybod am asesiadau effaith.

Mae bwriad i gynnal adolygiad o'r broses asesu effaith a llwyddiant ei weithrediad ym mis Mai 2020.

## Gwybodaeth Benodol am Gyflogaeth

Bydd Gwybodaeth am Gyflogaeth yn ystod y cyfnod 2018-2019 yn cael ei chyflwyno i'r Grŵp Cydraddoldeb a Chydlyniant Cymunedol a'r Pwyllgor Personél yn ystod rhan olaf 2019, pryd y bydd dadansoddiad llawn o'r data ar

gael; data wedi'i ddadansoddi yn ôl nodweddion a amddiffynnir, sef rhyw, hil, anabledd ac oed, a meini prawf penodol eraill.

Bydd y data ar gyfer y cyfnod o 12 mis rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019, neu os yw hynny'n briodol, yn giplun o'r gweithlu ar 31 Mawrth 2019.
Rydym yn cydnabod bod bylchau'n parhau yn yr wybodaeth sydd ar gael, gan mai yn wirfoddol y caiff y data hwn ei ddarparu. Mae swm y data a gasglwyd yn isel mewn perthynas â'r nodweddion canlynol a amddiffynnir: ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, crefydd a chred a chyfeiriadedd rhywiol.  Fodd bynnag, mae'r porthol cyflogeion wedi rhoi cyfle i'r staff ddiweddaru eu cofnodion personol eu hunain, gan gynnwys y gallu i ddiweddaru eu nodweddion a amddiffynnir, yn ddiogel a chan gadw cyfrinachedd. Nifer y staff oedd yn cyrchu'r porthol cyflogeion ar 31 Mawrth 2019 edd 3,991.

Mae ein hail adroddiad ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau, sydd i'w gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2019, yn nodi'r gwahaniaeth rwng cyflog cyfartalog y dynion a'r benywod sy'n gweithio yn y Cyngor yn ystod y cyfnod 2018-2019. Cymerwyd y data cyflogau o weithlu'r Cyngor, sef 6002 o gyflogeion, ar 31 Mawrth 2019, ac nid yw'n cynnwys gweithwyr achlysurol na holl weithwyr ysgolion.

Yn ystod 2018-2019 gostyngwyd lefel y recriwtio allanol yn sylweddol eto, i lenwi swyddi arbenigol ac anodd eu llenwi yn unig, e.e. gweithwyr gofal cymdeithasol cymwys.

## Adran 5 - Cyfle i roi eich Barn

Rydym ni'n croesawu adborth ar yr wybodaeth a geir yn y Adroddiad hwn trwy:

E-bost: policy@npt.gov.uk neu drwy'r post: Y Prif Weithredwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, Y Ganolfan Ddinesig, Port Talbot, SA13 1PJ

Mae gennym hefyd nifer o ddigwyddiadau ymgynghori/ymgysylltu ynghylch gwahanol wasanaethau, yr ydym ni'n eu hyrwyddo yn y wasg ac ar y wefan, a gallwch chi eu cyrchu trwy'r ddolen ganlynol: www.npt.gov.uk/haveyoursay

Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council

Ewch i wefan y Cyngor: www.npt.gov.uk

Dilynwch ni ac ychwanegwch eich sylwadau ar dudalen Facebook y Cyngor: https://www.facebook.com/NeathPortTalbotCBC

Dilynwch yr adroddiad hwn, ac ychwanegwch eich negeseuon Trydar ar ein tudalen Twitter: @NPTCouncil

Dilynwch ni ar Instagram: https://www.instagram.com/nptcouncil/

## Adran 6 - Mesurau Perfformiad

| Allwedd Perfformiad | |
|---|---|
| ↑ | Mae'r Perfformiad wedi gwella |
| ⟷ | Mae'r Perfformiad wedi cael ei gynnal |
| ↓ | Mae'r Perfformiad wedi gwaethygu |
| - | Dim data cymaradwy (data nad yw'n addas i'w gymharu / dim data ar gael i'w gymharu) |

| **Amcan Cydraddoldeb 1: Mynd i'r afael ag aflonyddu, camwahaniaethu a bygythiadau eraill i ddiogelwch personol a brofir gan bobl yn sgîl eu nodweddion a amddiffynnir** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Rhif** | **Cyf** | **Mesur** | **2017-2018** | **2018-2019** | **Cyfeiriad y Gwelliant** |
| **1** | **EQ1.1** | Nifer yr adroddiadau am droseddau atgasedd | 122 | 162 | - |
| **2** | **EQ1.2** | Nifer yr adroddiadau am droseddau atgasedd - Anabledd | 14 | 19 | - |
| **3** | **EQ1.3** | Nifer yr adroddiadau am droseddau atgasedd - Hil | 68 | 106 | - |
| **4** | **EQ1.4** | Nifer yr adroddiadau am droseddau atgasedd - Crefydd | 3 | 3 | - |
| **5** | **EQ1.5** | Nifer yr adroddiadau am droseddau atgasedd – Cyfeiriadedd Rhywiol | 37 | 24 | - |
| **6** | **EQ1.6** | Nifer yr adroddiadau am droseddau atgasedd - Trawsrywedd | 4 | 12 | - |

| Amcan Cydraddoldeb 1: Mynd i'r afael ag aflonyddu, camwahaniaethu a bygythiadau eraill i ddiogelwch personol a brofir gan bobl yn sgîl eu nodweddion a amddiffynnir | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Rhif** | **Cyf** | **Mesur** | **2017-2018** | **2018-2019** | **Cyfeiriad y Gwelliant** |
| | Nid oes modd diffinio cyfeiriad y gwelliant yn glir, gan nad oes modd bod yn sicr ynghylch y rheswm cywir am y cynnydd yn nifer yr adroddiadau.<br>Gallai'r rhesymau am y cynnydd mewn niferoedd ddeillio o'r ymarferiad Proffil Cymunedol, gyda'r cymunedau yn arbennig yn darparu gwybodaeth ynghylch troseddau atgasedd a sut a ble mae rhoi gwybod amdanynt. | | | | |
| **7** | **EQ1.7** | Nifer yr atgyfeiriadau i Banel Channel | 0 | 2 | **-** |
| | Oherwydd pryderon ynghylch y nifer isel o atgyfeiriadau i Channel yn 2017-2018, addaswyd y llwybr atgyfeirio a rhoi cyhoeddusrwydd iddo yn ystod sesiynau hyfforddiant staff. Ar ben hynny, crëwyd taflenni a'u postio ar y Fewnrwyd.<br>Bu'r Tîm Diogelwch Cymunedol, mewn partneriaeth â'r Tîm Hyfforddiant a Datblygu, hefyd yn cynnal adolygiad o'r Hyfforddiant (Gweithdy i gynyddu Ymwybyddiaeth o Prevent (Hyfforddiant WRAP) er mwyn sicrhau ein bod yn cyfleu diben Panel Channel yn glir, a hefyd agenda Prevent, a sut mae atgyfeirio i'r holl staff ar draws yr awdurdod.<br>Er bod y ffigurau wedi codi rhywfaint yn ystod 2018-2019, ni dderbynnir pob atgyfeiriad i Channel. Fodd bynnag, mae'r ffigurau atgyfeirio yn dal i godi, wrth i fwy o hyfforddiant a chynyddu ymwybyddiaeth ddigwydd ar draws yr awdurdod ac mewn sefydliadau eraill. | | | | |
| **8** | **EQ1.8** | Nifer yr atgyfeiriadau newydd i Gynhadledd Asesu Risg Amlasiantaeth Ymgynghorydd Trais Domestig Annibynnol / asiantaethau arbenigol trais domestig | 1997 | 2650 | **-** |
| | Mae hwn yn cynnydd disgwyliedig yn nifer yr atgyfeiriadau yn sgîl ehangu cwmpas Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol Llywodraeth Cymru, sy'n golygu bod holl staff awdurdodau lleol a gwasanaethau cyhoeddus yn cael hyfforddiant i ddeall arwyddion cam-drin domestig. Mae'r hyfforddiant yn sicrhau bod staff yn gallu ymateb | | | | |

| **Amcan Cydraddoldeb 1: Mynd i'r afael ag aflonyddu, camwahaniaethu a bygythiadau eraill i ddiogelwch personol a brofir gan bobl yn sgîl eu nodweddion a amddiffynnir** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Rhif** | **Cyf** | **Mesur** | **2017-2018** | **2018-2019** | **Cyfeiriad y Gwelliant** |
| | yn hyderus i unrhyw ddatgeliadau, gan gyfeirio dioddefwyr ymlaen at wasanaeth cymorth priodol. Yn ogystal ag estyn yr hyfforddiant, mae'r Grŵp Cyfathrebu ac Ymgysylltu lleol ynghylch Trais yn erbyn Benywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) a'i bartneriaid yn mynd ati'n rhagweithiol i gynyddu ymwybyddiaeth o Gam-drin Domestig yn y gymuned, gyda'r nod o annog dioddefwyr i ddod i'r amlwg a cheisio cymorth. Wrth i'r hyfforddiant gael ei estyn ymhellach ac i'r gwaith cynyddu ymwybyddiaeth barhau, mae disgwyl i'r ffigur hwn godi o flwyddyn i flwyddyn.<br><br>Fodd bynnag, dylid nodi bod y ffigur hwn yn cynnwys dioddefwyr ar bob lefel o risg, o lefel risg isel-ganolig i risg uchel iawn, a gellir cefnogi dioddefwyr ar draws mwy nag un ardal e.e. rhai sy'n agored i'r gwasanaeth IDVA ac yn hysbys i ddarparwr arbenigol neu MARAC. | | | |
| **9** | **EQ1.9** | Nifer yr atgyfeiriadau eildro i Gynhadledd Asesu Risg Amlasiantaeth Ymgynghorydd Trais Domestig Annibynnol / asiantaeth arbenigol trais domestig | **279** | **617** | **-** |
| | Yn aml gall dioddefwyr gael trafferth ymgysylltu â chymorth oherwydd natur y cam-drin a phatrymau ymddygiad rheoli / gorfodi partner sy'n eu cam-drin. O'r herwydd, gall dioddefwyr golli cysylltiad â gwasanaeth, ond yna cyflwyno eto yn ddiweddarach.<br>Mewn cyferbyniad, bydd rhai dioddefwyr yn ymgysylltu'n llawn â chefnogaeth, ac ni fydd angen unrhyw wasanaethau arnynt wedi hynny.<br><br>Fodd bynnag, y mae carfan o bobl ag anghenion cymhleth sy'n cael trafferth ymgysylltu â gwasanaethau, ac a fydd yn barhaus yn cyrchu gwasanaethau lluosog gyda chanlyniadau gwael iawn. Mae darn o waith yn cael ei wneud er mwyn deall yn well beth yw'r dull gweithredu yn yr achosion hyn, ac a fyddai dull gweithredu amgen yn fwy addas at y diben ac yn arwain at well canlyniadau. | | | |

| **Amcan Cydraddoldeb 2: Gwella mynediad i wybodaeth drwy ddiwallu anghenion pobl o grwpiau a amddiffynnir lle mae'r anghenion hynny'n wahanol i anghenion pobl eraill** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Rhif** | **Cyf** | **Mesur** | **2017-2018** | **2018-2019** | **Cyfeiriad y Gwelliant** |
| **11** | **EQ2.2** | % y tudalennau gwefan sydd ar gael yn Gymraeg | 100% | 100% | ↑ |
| **13** | **EQ2.4 (DBC/006)** | Gwella'r sgôr proffesiynol a roddir i'n tudalennau gwefan o 1 seren (y sgôr uchaf yw 4 seren) | 2** | Nid yw SOCITM yn cyflawni'r broses hon bellach | |
| | Mesur i'w ddileu | | | | |
| **14** | **EQ2.5 (DBC/007)** | % y cwsmeriaid oedd yn fodlon iawn/fodlon neu'n ddigon hapus ynghylch gwelliannau a wnaed i'r gwasanaeth sydd ar gael ar-lein - golwg a theimlad cyffredinol | 84% (37 allan o 44) | 100% (21 allan o 21) | ↑ |
| **15** | **EQ2.6 (DBC/008)** | Mae mwy o'n cwsmeriaid yn cael bod y wefan yn haws ei defnyddio: % sy'n fodlon iawn/fodlon neu'n ddigon hapus ynghylch hwylustod symud o amgylch y safle | 84% (37 allan o 44) | 85.71% (18 allan o 21) | ↑ |
| **16** | **EQ2.7 (DBC/009)** | Gall mwy o'n cwsmeriaid gyrchu'r wybodaeth a chael hyd i'r wefan/gwasanaeth maen nhw'n chwilio amdano yn haws (ar ein gwefan) y tro cyntaf: % sy'n fodlon iawn/fodlon neu'n ddigon hapus ynghylch hwylustod cael hyd i wybodaeth/wasanaethau | 84% (37 allan o 44) | 88.1% (18.5 allan o 21) | ↑ |
| | Rydym ni'n dal yn y traean uchaf o ran adborth ein cwsmeriaid ynghylch datblygiadau ein gwefan. Mae'r gwaith i wella'r wefan yn barhaus yn parhau a byddwn ni'n dal i gasglu adborth gan gwsmeriaid yn rheolaidd. | | | | |

| Amcan Cydraddoldeb 2: Gwella mynediad i wybodaeth drwy ddiwallu anghenion pobl o grwpiau a amddiffynnir lle mae'r anghenion hynny'n wahanol i anghenion pobl eraill | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Rhif** | **Cyf** | **Mesur** | **2017-2018** | **2018-2019** | **Cyfeiriad y Gwelliant** |
| **17** | **EQ2.8 (DBC/010)** | Nifer y cwsmeriaid a gafodd eu cynorthwyo i ddefnyddio opsiynau hunanwasanaeth gan staff Siop dan yr Unto y Gwasanaethau Cwsmeriaid | 94 | 23 | **-** |
| | Mae'n anodd bod yn sicr beth yw'r rheswm penodol am y gostyngiad yn nifer y cwsmeriaid a gafodd eu cynorthwyo i ddefnyddio opsiynau hunanwasanaeth, ond bydd parhad yr ymgyrchoedd ymwybyddiaeth ddigidol, ynghyd â'r newidiadau yn sut mae cwsmeriaid yn cyrchu gwybodaeth a gwasanaethau wedi cael effaith ar nifer y bobl y mae angen cymorth arnynt.<br>Cadarnheir hynny gan nifer yr ymwelwyr â'n Siopau dan yr Unto, sef 60,194 yn 2018-2019, o gymharu â 65,259 yn 2017-2018 | | | |
| **18** | **EQ2.9 (DBC/001)** | % y trafodion a gwblhawyd ar-lein (gwasanaethau newydd) | 71.1% (60,623 o 85,245) | 80% | ↑ |
| | Mae'r data ar gyfer y mesur hwn yn cynnwys gwybodaeth ar gyfer y gwasanaethau canlynol: Ceisiadau am wastraff swmpus, sbwriel a chyfarpar ailgylchu, adrodd am finiau baw cŵn ar sail lleoliad, biniau graean a rhoi gwybod am gasgliadau gwastraff a gollwyd. Trefnu apwyntiadau rheoli plâu, ac mae modd gwneud cais am hawlenni faniau ar-lein hefyd. Mae'r galw am ddarpariaeth ar-lein yn y gwasanaethau hyn yn parhau i dyfu yn unol â'r cyfeiriad Corfforaethol | | | | |
| **19** | **EQ2.10 (DBC/002)** | Nifer y gwasanaethau newydd sydd ar gael ar-lein | 31 | 16 | **-** |
| | Ymhlith y gwasanaethau newydd a'r rhai a uwchraddiwyd a gyflwynwyd yn ystod 2018-2019 mae: ceisiadau am brydau ysgol am ddim, casgliadau ailgylchu a gollwyd, prynu aelodaeth o Barc Margam, hawlenni sgipiau a | | | | |

| **Amcan Cydraddoldeb 2: Gwella mynediad i wybodaeth drwy ddiwallu anghenion pobl o grwpiau a amddiffynnir lle mae'r anghenion hynny'n wahanol i anghenion pobl eraill** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Rhif** | **Cyf** | **Mesur** | **2017-2018** | **2018-2019** | **Cyfeiriad y Gwelliant** |
| | sgaffaldiau, archebu tystysgrifau geni, marwolaeth a phriodas gan y Cofrestrydd, grantiau gwisg ysgol, ceisiadau i Gronfa Cartrefi Cynnes, taliadau arian cinio ysgol.<br>Mae gwaith wedi parhau yn ogystal mewn perthynas â gwasanaethau Gov Notify ar gyfer y meysydd canlynol: cludiant i'r ysgol, addysg, gwasanaethau plant a theuluoedd a threth y cyngor. Mae hyn wedi golygu bod modd anfon negeseuon awtomatig at unigolion/cwmnïau tacsi a bws perthnasol, yn rhoi gwybod iddynt am gau ysgolion yn ystod tywydd gwael; gwybodaeth am gyrsiau magu plant ac anfon nodyn atgoffa at y trigolion hynny sydd ag ôl-ddyledion treth cyngor | | | | |
| **21** | **EQ2.12** | Nifer y cwynion a gadarnhawyd mewn perthynas â chydymffurfio â Chynllun/Safonau Iaith Gymraeg y Cyngor | 2<br>allan o 4 | 1<br>allan o 5 | ↑ |
| | Daeth cyfanswm o bum cwyn i law yn ystod 2018-2019. Derbyniwyd pedair cwyn trwy Gomisiynydd y Gymraeg; nid ymchwiliwyd i ddwy ohonynt, mae un yn dal yn destun ymchwiliad, ac yn achos un cafwyd ein bod wedi methu â chydymffurfio â'r safon berthnasol, a chytunwyd ar gynllun gweithredu i leihau'r risg y bydd y methiant hwnnw'n digwydd eto.<br><br>Daeth yr olaf o'r pedair cwyn i law yn uniongyrchol i'r Cyngor, ond nid oedd y mater yn rhan o gyfrifoldebau'r Cyngor ac fe'i hatgyfeiriwyd ymlaen at sefydliadau iaith partner i ystyried unrhyw gamau gweithredu posibl.<br>Mae rhagor o wybodaeth am y cwynion hyn ar gael yn Adroddiad Blynyddol Safonau'r Iaith Gymraeg 2018-2019. | | | | |

| Amcan Cydraddoldeb 3: Gwella mynediad i wasanaethau drwy ddiwallu anghenion pobl o grwpiau a amddiffynnir lle mae'r anghenion hynny'n wahanol i anghenion pobl eraill - Gwasanaethau Cymdeithasol | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Rhif** | **Cyf** | **Mesur** | **2017-2018** | **2018-2019** | **Cyfeiriad y Gwelliant** |
| **22** | **EQ3.1** | Nifer yr oedolion oedd yn derbyn gwasanaethau oedolion ar 31 Mawrth | 2,726 | 2,721 | ↑ |
| **23** | **EQ3.2** | Nifer y plant oedd yn derbyn gofal a chymorth gan y Gwasanaethau Plant ar 31 Mawrth | 1,200 | 1,182 | ↑ |
| | Mae'r data'n ymwneud ag oedolion sy'n derbyn gofal a chymorth sydd â chynllun gofal a chymorth, neu sydd â chynllun cymorth os ydynt yn ofalwr ar 31 Mawrth. | | | | |
| **24** | **EQ3.3** | Nifer y gofalwyr oedd wedi cael asesiad ar 31 Mawrth | 282 | 287 | ↑ |
| | Cynhelir asesiadau gofalwyr gan y timau gwaith cymdeithasol a Gwasanaeth Gofalwyr Castell-nedd Port Talbot, ar ran y Cyngor. Cynigir asesiad i bob gofalwr, a rhoddir asesiad i'r rhai sy'n derbyn y cynnig. Mae gofalwyr sy'n gwrthod y cynnig i gael asesiad yn dal i dderbyn mynediad at wybodaeth, cyngor a chymorth, yn ogystal â'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan Wasanaeth Gofalwyr Castell-nedd Port Talbot. | | | |

| **Amcan Cydraddoldeb 4: Monitro gwybodaeth a data yn effeithiol er mwyn canfod yr anfanteision mae pobl yn eu profi oherwydd eu nodweddion a amddiffynnir** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Rhif** | **Cyf** | **Mesur** | **2017-2018** | **2018-2019** | **Cyfeiriad y Gwelliant** |
| **25** | **EQ4.1** | Nifer yr asesiadau effaith ar gydraddoldeb a gynhaliwyd ac yr adroddwyd amdanynt i'r Bwrdd Cabinet perthnasol | 10 | 6 | ↓ |
| | Nid oes rheswm amlwg am y gostyngiad yn nifer yr asesiadau effaith ar gydraddoldeb a gynhaliwyd ac yr adroddwyd amdanynt. Gallai nifer o ffactorau gyfrannu at y gostyngiad hwn, gan gynnwys y gostyngiad posibl yn nifer y polisïau newydd/diwygiedig yr adroddir amdanynt a'r mannau lle mae'r broses sgrinio wedi nodi na fu angen asesiad effaith 'llawn'. | | | | |
| **26** | **EQ4.2** | Nifer y bobl a fu'n cyfranogi'n weithredol yn y canlynol: Cymdeithas y Gymuned Pobl Ddu a Lleiafrifoedd Ethnig (BME) | 10 | 10 | ↔ |
| | | Grŵp Gweithredu'r Rhwydwaith Anabledd | 0 | 0 | |
| | Cymdeithas y Gymuned BME - y ffigur a ddyfynnir yw nifer yr Ymddiriedolwyr ar y Pwyllgor Gweithredol.<br><br>Mae'r mesur ynghylch Grŵp Gweithredu'r Rhwydwaith Anabledd i gael ei ddileu, gan nad yw'r Grŵp yn cyfarfod bellach. | | | | |

| Amcan Cydraddoldeb 5: Cyflwyno hyfforddiant i'r staff yn unol â gofynion y Ddeddf Cydraddoldeb | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Rhif** | **Cyf** | **Mesur** | **2017-2018** | **2018-2019** | **Cyfeiriad y Gwelliant** |
| **27** | **EQ5.1** | Nifer y staff a fu'n mynychu hyfforddiant ar bynciau penodol | 2406 (roedd 1993 o'r rhain yn staff CNPT) | 1876 (roedd 1485 o'r rhain yn staff CNPT) | - |
| | Nid oedd y pynciau a gynigiwyd yn 2018-2019 yn union yr un fath â'r rhai a gynigiwyd yn 2017-2018; fodd bynnag, roedd pob un yn ymwneud â chydraddoldeb neu Prevent. | | | | |

| Amcan Cydraddoldeb 6: Gwella mynediad i'r amgylchedd drwy ddiwallu anghenion pobl o grwpiau a amddiffynnir lle mae'r anghenion hynny'n wahanol i anghenion pobl eraill | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Rhif** | **Cyf** | **Mesur** | **2017-2018** | **2018-2019** | **Cyfeiriad y Gwelliant** |
| **28** | **EQ6.1** | Nifer y cwynion a ddaeth i law mewn perthynas â hygyrchedd | 0 | 0 | ⟷ |
| **29** | **EQ6.2** | % y cwynion a gadarnhawyd mewn perthynas â hygyrchedd | 0 | 0 | ⟷ |
| **30** | **EQ6.3** | % yr oedolion 60 oed a throsodd sydd â thocyn bws consesiynol | 95.15% | 87% | **-** |
| | Trwy'r Fenter Genedlaethol yn erbyn Twyll, ynghyd â Thechnolegau Cardiau Cymwysedig, mae Llywodraeth Cymru wedi canfon rhyw 28,000 o ddeiliaid tocynnau bws consesiynol ledled Cymru sydd wedi marw, ac mae'r tocynnau wedi cael eu canslo. Mae hyn wedi cael effaith sylweddol ar y nifer, gan fod 3,571 yn llai o gardiau. Ar ben hynny, mae First Cymru wedi dechrau defnyddio darn o feddalwedd yn eu peiriannau tocynnau sy'n adnabod cardiau anweithredol (o'r rhestr boeth). Bydd hyn yn cael effaith bellach o ran lleihau nifer y cardiau consesiwn sy'n cael eu defnyddio, gan mai eu busnes nhw sy'n cynnal y rhan fwyaf o lwybrau teithio yn y fwrdeistref sirol.<br>Mae'r gofyniad i ailgyflwyno'r holl gardiau consesiynol erbyn diwedd Rhagfyr 2019 yn debygol o gael effaith sylweddol bellach ar nifer y cardiau sydd mewn cylchrediad. | | | |
| **31** | **EQ6.4** | Nifer y teithiau sgwteri symudedd a hwyluswyd gan Shopmobility<br>Castell-nedd | 1,714 | 1,555 | ↓ |
| | | Port Talbot | 2,830 | 2,402 | ↓ |

| **Amcan Cydraddoldeb 6: Gwella mynediad i'r amgylchedd drwy ddiwallu anghenion pobl o grwpiau a amddiffynnir lle mae'r anghenion hynny'n wahanol i anghenion pobl eraill** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Rhif** | **Cyf** | **Mesur** | **2017-2018** | **2018-2019** | **Cyfeiriad y Gwelliant** |
| | Mae'r fethodoleg a ddefnyddiwyd gynt ar gyfer cyfrif teithiau sgwter wedi newid.<br>Cyn 2018, roedd teithiau'n cael eu cyfrif mewn sesiynau oedd yn cwmpasu cyfnodau yn y bore a'r prynhawn a ddefnyddiwyd yn sail ar gyfer strwythur gwahanol o godi tâl. Wedi cyflwyno tâl dyddiol unedol syml am logi sgwteri, nid yw hynny'n angenrheidiol bellach, ac mae'n arwain at asesiad symlach a mwy cywir o'r union deithiau a wneir.<br>Mae ffigurau 2017 - 2018 wedi cael eu hailddatgan ar y sail newydd symlach, sy'n golygu bod y gymhariaeth â'r flwyddyn gyfredol yn fwy ystyrlon. | | | | |
| **32** | **EQ6.5** | Nifer y cwsmeriaid oedd wedi ymrestru gyda Shopmobility<br>Castell-nedd | 138 | 164 | ↑ |
| | | Port Talbot | 213 | 202 | ↓ |

| Amcan Cydraddoldeb 7: Lleihau'r bylchau yn y perfformiad addysgol a brofir gan ddisgyblion oherwydd eu nodweddion a amddiffynnir | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Rhif** | **Cyf** | **Mesur** | **2017-2018** | **2018-2019** | **Cyfeiriad y Gwelliant** |
| **33** | **EQ7.1** | % y merched a gyrhaeddodd Ganlyniad 5+ mewn llythrennedd yn y Cyfnod Sylfaen | 79.42% | 77.12% | ↓ |
| | | % y bechgyn a gyrhaeddodd Ganlyniad 5+ mewn llythrennedd yn y Cyfnod Sylfaen | 66.27% | 65.29% | ↓ |
| **34** | **EQ7.2** | % y merched a gyrhaeddodd Ganlyniad 5+ mewn rhifedd yn y Cyfnod Sylfaen | 79.18% | 76.58% | ↓ |
| | | % y bechgyn a gyrhaeddodd Ganlyniad 5+ mewn rhifedd yn y Cyfnod Sylfaen | 71.92% | 70.77% | ↓ |
| **35** | **EQ7.3** | % y merched a gyrhaeddodd Lefel 4+ mewn llythrennedd yng Nghyfnod Allweddol 2 | 90.49% | 89.27% | ↓ |
| | | % y bechgyn a gyrhaeddodd Lefel 4+ mewn llythrennedd yng Nghyfnod Allweddol 2 | 84.21% | 81.38% | ↓ |
| **36** | **EQ7.4** | % y merched a gyrhaeddodd Lefel 4+ mewn rhifedd yng Nghyfnod Allweddol 2 | 90.35% | 87.64% | ↓ |
| | | % y bechgyn a gyrhaeddodd Lefel 4+ mewn rhifedd yng Nghyfnod Allweddol 2 | 87.93% | 85.25% | ↓ |
| **37** | **EQ7.5** | % y merched a gyrhaeddodd Lefel 5+ mewn llythrennedd yng Nghyfnod Allweddol 3 | 90.89% | 90.16% | ↓ |
| | | % y bechgyn a gyrhaeddodd Lefel 5+ mewn llythrennedd yng Nghyfnod Allweddol 3 | 78.31% | 80.48% | ↑ |
| **38** | **EQ7.6** | % y merched a gyrhaeddodd Lefel 5+ mewn rhifedd yng Nghyfnod Allweddol 3 | 86.79% | 86.27% | ↓ |

| Amcan Cydraddoldeb 7: Lleihau'r bylchau yn y perfformiad addysgol a brofir gan ddisgyblion oherwydd eu nodweddion a amddiffynnir | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Rhif** | **Cyf** | **Mesur** | **2017-2018** | **2018-2019** | **Cyfeiriad y Gwelliant** |
| | | % y bechgyn a gyrhaeddodd Lefel 5+ mewn rhifedd yng Nghyfnod Allweddol 3 | 81.00% | 80.00% | ↓ |
| **39** | **EQ7.7** | % y merched a gyrhaeddodd Lefel 2 mewn llythrennedd yng Nghyfnod Allweddol 4 | 74.06% | Bydd data ar gyfer (blwyddyn academaidd) 2018-2019 ar gael ym mis Rhagfyr | |
| | | % y bechgyn a gyrhaeddodd Lefel 2 mewn llythrennedd yng Nghyfnod Allweddol 4 | 52.43% | | |
| **40** | **EQ7.8** | % y merched a gyrhaeddodd Lefel 2 mewn rhifedd yng Nghyfnod Allweddol 4 | 60.75% | | |
| | | % y bechgyn a gyrhaeddodd Lefel 2 mewn rhifedd yng Nghyfnod Allweddol 4 | 56.47% | | |

| Amcan Cydraddoldeb 7: Lleihau'r bylchau yn y perfformiad addysgol a brofir gan ddisgyblion oherwydd eu nodweddion a amddiffynnir | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Rhif** | **Cyf** | **Mesur** | **2017-2018** | **2018-2019** | **Cyfeiriad y Gwelliant** |
| **41** | **EQ7.9** | % presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd: | 94.14% | 94.02% (p) | ↔ |
| | | merched | 94.30% | 94.20% (p) | ↔ |
| | | bechgyn | 93.99% | 93.86% (p) | ↔ |
| | | disgyblion sy'n dweud bod ganddynt hunaniaeth Prydeinig heblaw gwyn | 93.45% | 93.63% (p) | ↑ |
| | | disgyblion sy'n dweud bod ganddynt hunaniaeth Prydeinig gwyn | 94.20% | 94.07% (p) | ↔ |

| Amcan Cydraddoldeb 7: Lleihau'r bylchau yn y perfformiad addysgol a brofir gan ddisgyblion oherwydd eu nodweddion a amddiffynnir | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Rhif** | **Cyf** | **Mesur** | **2017-2018** | **2018-2019** | **Cyfeiriad y Gwelliant** |
| | | disgyblion ag anghenion addysgol arbennig | 92.92% | 92.70% (p) | ⟷ |
| | | disgyblion heb anghenion addysgol arbennig | 94.62% | 94.55% (p) | ⟷ |
| | | disgyblion sy'n deithwyr | 81.14% | 84.58% (p) | ↑ |
| | | disgyblion nad ydynt yn deithwyr | 94.46% | 94.07% (p) | ⟷ |
| | Mae'r ffigurau presenoldeb yn yr ysgol gynradd yn rhai drs dro, ac os cânt eu cadarnhau, byddant yn cael eu diweddaru cyn eu cyhoeddi. Mae'r gwahaniaeth rhwng ffigurau 2107-2018 a 2018-2019 mor fach nes y bernir ei fod yn briodol adrodd am gyfeiriad y gwelliant fel 'cynhelir', yn hytrach nag adrodd yn fanwl ar y mân wahaniaethau. Fodd bynnag, lle mae'r gwahaniaeth yn y ffigurau yn fwy arwyddocaol, mae hynny wedi cael ei gydnabod | | | | |
| **42** | **EQ7.10** | % presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd | 93.48% | 93.46% | ⟷ |
| | | merched | 93.56% | 93.51% | ⟷ |
| | | bechgyn | 93.40% | 93.41% | ⟷ |
| | | disgyblion sy'n dweud bod ganddynt hunaniaeth Prydeinig heblaw gwyn | 94.03% | 94.40% | ↑ |
| | | disgyblion sy'n dweud bod ganddynt hunaniaeth Prydeinig gwyn | 93.44% | 93.43% | ⟷ |
| | | disgyblion ag anghenion addysgol arbennig | 91.27% | 91.47% | ↑ |
| | | disgyblion heb anghenion addysgol arbennig | 94.28% | 94.23% | ⟷ |
| | | disgyblion sy'n deithwyr | 78.05% | 76.62% | ↓ |
| | | disgyblion nad ydynt yn deithwyr | 93.51% | 93.49% | ⟷ |

| Amcan Cydraddoldeb 7: Lleihau'r bylchau yn y perfformiad addysgol a brofir gan ddisgyblion oherwydd eu nodweddion a amddiffynnir | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Rhif** | **Cyf** | **Mesur** | **2017-2018** | **2018-2019** | **Cyfeiriad y Gwelliant** |
| | Mae'r gwahaniaeth rhwng ffigurau 2107-2018 a 2018-2019 mor fach nes y bernir ei fod yn briodol adrodd am gyfeiriad y gwelliant fel 'cynhelir', yn hytrach nag adrodd yn fanwl ar y mân wahaniaethau. Fodd bynnag, lle mae'r gwahaniaeth yn y ffigurau yn fwy arwyddocaol, mae hynny wedi cael ei gydnabod | | | | |
| **43** | **EQ7.11** | Nifer y gwaharddiadau parhaol yn ystod y flwyddyn academaidd mewn ysgolion cynradd | 1 | 1 | ⟷ |
| | | Bechgyn | 1 | 1 | ⟷ |
| | | Merched | 0 | 0 | ⟷ |
| | | AAA | 0 | 1 | ↓ |
| | | Teithwyr | 0 | 0 | ⟷ |
| | | BME | 0 | 0 | ⟷ |
| **44** | **EQ7.12** | Nifer y gwaharddiadau parhaol yn ystod y flwyddyn academaidd mewn ysgolion uwchradd | 9 | 17 | ↓ |
| | | Bechgyn | 7 | 13 | ↓ |
| | | Merched | 2 | 4 | ↓ |
| | | AAA | 7 | 13 | ↓ |
| | | Teithwyr | 0 | 0 | ⟷ |
| | | BME | 0 | 0 | ⟷ |

| **Amcan Cydraddoldeb 8: Sicrhau bod ein prosesau cyflogaeth a recriwtio yn hybu tegwch a chydraddoldeb i bawb.** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Rhif** | **Cyf** | **Mesur** | **2017-2018** | **2018-2019** | **Cyfeiriad y Gwelliant** |
| **45** | **EQ8.1** | Nifer y staff a fu'n mynychu hyfforddiant recriwtio | 76 | 29 | ↓ |
| **46** | **EQ8.2** | % y cyfranogwyr mewn sesiynau hyfforddi oedd yn barnu bod eu gwybodaeth wedi cynyddu | 100% | 100% | ↔ |
| **47** | **EQ8.3** | Nifer y cwynion recriwtio | 0 | 0 | ↔ |
| **48** | **EQ8.4** | Nifer y dechreuwyr newydd sy'n cychwyn yn uwch na phwynt isaf y raddfa | 31 | 35 | ↑ |